


Dŵr yfed 2009

Ansawdd dŵr yfed yng Nghymru

Gorffennaf 2010

Adroddiad gan y Prif Arolygwr Dŵr Yfed





Dŵr yfed yng Nghymru 2009



Cyhoeddwyd gan
Drinking Water Inspectorate
55 Whitehall
Llundain
SW1A 2EY

Ffôn: 030 0068 6400

Gwefan: <http://www.dwi.gov.uk>

© Hawlfraint y Goron 2010

ISBN: 978-1-905852-47-5

Y mae hawlfraint y trefniadau argraffyddol a'r dyluniad yn perthyn i'r Goron.

Gellir atgynhychu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logo) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu ffurf a bwrw ei fod yn cael ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel Hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl a tharddiad y cyhoeddiad.

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cyflwyniad | 4 |
| Trefniadau cyflenwi dŵr | 7 |
| Profi ansawdd dŵr yfed | 9 |
| Canlyniadau ansawdd dŵr yfed | 10 |
| Cyflenwadau dŵr preifat | 32 |
| Asesiadau risg | 35 |
| Digwyddiadau ansawdd dŵr yfed | 38 |
| Gweithgaredd archwilio technegol | 41 |
| Hyder y cyhoedd mewn ansawdd dŵr yfed | 44 |
| Atodiad 1: Ffynonellau gwybodaeth eraill | 49 |
| Atodiad 2: Rhestr termau a disgrifiad o safonau | 50 |
| Atodiad 3: Digwyddiadau ansawdd dŵr arwyddocaol | 62 |
| Atodiad 4: Gwelliannau mewn ansawdd dŵr yfed a gynlluniwyd | 80 |
| Atodiad 5: Cystadleuaeth yn y diwydiant dŵr | 85 |
| Atodiad 6: Mynegeion cwmnïau dŵr | 87 |

Dŵr Yfed 2009 yw adroddiad blynyddol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac mae'n cynnwys nifer o rannau.


Mae'r rhan yma'n disgrifio ansawdd dŵr yfed yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth hefyd yn cyhoeddi rhannau atodol ar gyfer chwe rhanbarth Lloegr (Rhanbarthau'r Canolbarth, Dwyrain, Gogledd, De, Thames a'r Gorllewin).

Mae pob rhan ar gael ar wefan yr Arolygiaeth <http://www.dwi.gov.uk> ac ar y gryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn ynghyd â crynodeb o ddata ar wahân ar gyfer rhaglenni samplu'r cwmni dŵr.

Cyflwyniad i'r adroddiad ar gyfer Cymru

Mae *Dŵr Yfed 2009* yn cael ei gyhoeddi fel cyfres o saith adroddiad sydd ag un yn delio â Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am ansawdd dŵr yfed yng Nghymru mewn ffurf sy'n cwrdd ag anghenion y rhai sydd â diddordeb mewn ansawdd a rheolaeth ddiogel cyflenwadau dŵr yfed o safbwynt y defnyddiwr, yn bennaf yr awdurdodau lleol a Chyngor Defnyddwyr Dŵr yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn disgrifio ffeithiau allweddol am ansawdd dŵr yfed yng Nghymru, gaiff ei gwasanaethu gan bedwar cwmni dŵr (Albion Water, Dee Valley Water, Dŵr Cymru Welsh Water a Severn Trent Water) sydd, gyda'i gilydd yn cyflenwi cyflenwadau dŵr cyhoeddus i tua thair miliwn o ddefnyddwyr.



Roedd canlyniadau'r profi yn 2009 yn dangos bod ansawdd cyffredinol dŵr yfed yng Nghymru'n dda. Y ffigwr cydymffurfio â safonau dŵr yfed yn nhapiau defnyddwyr oedd 99.95%, heb newid ers 2008 a yn gyfwerth â ffigwr Lloegr a'r diwydiant ar y cyfan. Mae'r ffigwr yma wedi ei greu trwy adio canlyniadau'r profion i gyd am y 39 o baramedrau gyda safonau Ewropeaidd neu genedlaethol. Mae amgylchiadau'r ychydig fethiannau a'r camau a gymerwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn cael eu trafod yng nghorff yr adroddiad hwn.

Pan fo diwydiant dŵr Cymru'n cael ei farnu gan bedwar dangosydd yr Arolygiaeth o berfformiad ansawdd dŵr sy'n edrych yn eu tro ar drin dŵr, cywirdeb cronfeydd gwasanaeth, a chynnal a chadw'r rhwydwaith, yn 2009, mae'r prif newid er gwell yn gysylltiedig â diheintio, sydd, ar 99.98% wedi adfer o'r pwynt isel o 99.86% yn 2008. Er hynny, o'u cymharu â llynedd, mae agweddau eraill o drin dŵr wedi dirywio (99.95%), felly hefyd gywirdeb cronfeydd dŵr (99.94%) a chynnal a chadw rhwydweithiau (99.72%). Gan roi o'r neilltu y gwell perfformiad diheintio, mae'r dangosyddion ar gyfer Cymru yn is na'r cyfartaledd ar yfer y diwydiant gyda'r ffigwr ar gyfer cynnal a chadw cronfeydd gwasanaeth yn is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer pob rhanbarth yn Lloegr. Mae ffigurau cwmnïau dŵr unigol yn cael eu cofnodi yn *Atodiad 6*.

Dyma'r flwyddyn gyntaf pan fo adrodd ar ddigwyddiadau ansawdd dŵr yn defnyddio dull newydd yr Arolygiaeth wedi ei seilio ar risg i ddsbarthu ac asesu. Mae digwyddiadau'n cael eu dosbarthi i bum categori: Ddim yn arwyddocaol, Dibwys, Arwyddocaol, Difrifol a'r Mwyaf difrifol. Bu cyfanswm o 50 o ddigwyddiadau ar draws Cymru ac roedd bron hanner y rhain (23) o'r math oedd angen archwiliad manwl gan archwilydd. Hefyd roedd yna dri digwyddiad oedd yn ddigon difrifol i warantu archwiliad o'r math mwyaf difrifol. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol â rhanbarthau eraill o Loegr o ran y galw am adnoddau cysylltiedig â risg ar yr Arolygiaeth. Yn nhermau'r digwyddiadau a gofnodwyd eleni. Y ddau risg ansawdd dŵr mwyaf cyffredin oedd aflwiad a methiannau trin dŵr. Ffocws benodol gwaith yr Arolygiaeth yng Nghymru eleni yw archwilio a gorfodi gwelliannau gan Dŵr Cymru Welsh Water mewn perthynas â digonolrwydd trin dŵr. Mae'r Arolygiaeth wedi rhoi yn ei le gyfuniad o rybuddion statudol a chynlluniau gwaith ac mae wedi bod ar ymweliadau â'r safle i weld y camau gaiff eu cymryd gan y cwmni i gywiro diffygion mewn triniaeth a monitro dŵr crai yn ogystal ag ymatebion i larymau. Yn 2009 cydnabu Dŵr Cymru Welsh Water y drosedd o gyflenwi dŵr nad oedd yn addas i'w yfed a chafodd ei rybuddio gan yr Arolygiaeth. Fel a ddisgrifir yn yr adroddiad, cododd y drosedd hon oherwydd bod y cwmni wedi cysylltu eiddo â'r garthffos leol yn hytrach na'r prif gyflenwad dŵr. Gellir dod o hyd i bob digwyddiad arwyddocaol yn 2009 yn *Atodiad 3*.

Mae yna dueddiad tymor hirach a gwelliant positif mewn hyder cyhoeddus yn ansawdd dŵr yfed y rhanbarth, fel a fesurir gan ddefnyddwyr.

Mae'r nifer o bobl ar draws y rhanbarth sy'n mynegi pryder am ansawdd dŵr yfed y rhanbarth (golwg, blas a salwch) wedi parhau i ddisgyn.

Mewn cymhariaeth â rhanbarthau eraill yn Lloegr mae Cymru'n dal i fod â graddfa gyswilt gymharol uchel (4 fesul 1,000 o'r boblogaeth), ond mae'r ffigurau am afliwio wedi gostwng yn y tair blynedd ddiwethaf o 3.8 i 2.6 fesul 1,000 o'r boblogaeth.

O ganlyniad i gwblhau ei rhaglen o fuddsoddiad strategol mewn adnewyddu prif gyflenwadau dŵr eleni mae Dŵr Cymru Welsh Water nawr yn derbyn 30% yn llai o adroddiadau am ddŵr wedi ei afliwio oddi wrth ddefnyddwyr. Mae'r ffigurau yma o hyder cyhoeddus yn dangos y buddiannau sydd wedi eu gwireddu gan fuddsoddiad y diwydiant hyd yma mewn ansawdd dŵr yfed. Mae Atodiad 4 yn cyflwyno gwybodaeth am y cynlluniau gwaith a gwblhawyd yn 2009 a'r rhai sydd wedi eu cynllunio i'w cwblhau dros y pum mlynedd nesaf.


Gan edrych ymlaen mae'r safon ar gyfer plwm yn dod yn fwy llym yn 2013. Mae'r cynnydd wnaed tuag at gwrdd â safonau'r dyfodol yn cael ei ddangos mewn graff yng nghorff yr adroddiad. Mae'r Arolygiaeth wedi amcangyfrif petai'r safon llymach mewn grym yn 2009 yna byddai'r ffigwr ar gyfer cydymffurfiaeth cyffredinol gyda safonau dŵr yfed wedi bod yn 99.93%, yn hytrach na 99.95%. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y ffaith y dylai cwmnïau yng Nghymru weithredu Canllaw'r Arolygiaeth a thrwy hyn byddai methiannau'r dyfodol yn ogystal â'r safon plwm presennol yn cael eu harchwilio a chynlluniau diogelwch dŵr yn cael eu diweddarau gyda chynlluniau gweithredu i leihau datguddiad y defnyddiwr i blwm mewn tai hyn mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol.

Yn ystod 2009, cymrodd Llywodraeth y Cynulliad gamau i ddiogelu'r defnyddwyr hynny sy'n cael eu gwasanaethu gan tua 8.682 o gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru. Mae manylion am y rheoliadau newydd sydd wedi eu seilio ar risg a sut y byddan nhw'n gweithio yn cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag enghraifft o achos yn dangos sut mae pwerau newydd tebyg wedi ei gweithredu'n syth ac yn llwyddiannus gan un awdurdod lleol yn Lloegr. Mae'r newid hwn yn nodi cam pwysig ymlaen; gall gweithrediadau gael eu cwblhau'n fwy parod gan awdurdodau lleol i wella'r cyflenwadau preifat hynny sy'n gosod risg i iechyd ac mae'r wybodaeth a gyflwynir i'r Arolygiaeth yn hwyluso cofnodi agored ar bob cyflenwad dŵr yfed yng Nghymru.

Trefniadau cyflenwadau dŵr

Mae pedwar cwmni dŵr yn cyflenwi dŵr yfed yng Nghymru: Albion Water (ALB), Dee Valley Water (DVW), Dwr Cymru Welsh Water (DWR) a Severn Trent Water (SVT). Mae Severn Trent Water yn cyflenwi defnyddwyr yn Lloegr yn bennaf ond mae'n cael ei gynnwys yma gan ei fod hefyd yn cyflenwi dŵr i ddefnyddwyr yn ardal canolbarth dwyreiniol Cymru.

Ffigwr 1: Map yn dangos ffynonellau o ddŵr yfed fesul parth ar draws y rhanbarth



Dŵr ar yr wyneb yw llawer o'r dŵr (93%) a gyflenwir yn y rhanbarth a ddaw o afonydd megis Dyfrdwy, Hafren, Tywi a Gwy. Mae'r ardaloedd tir uchel yng Nghymru yn ddalgylchoedd pwysig i ffynonellau dŵr yn y rhanbarth. Tynnir dŵr o sawl cronfa gan gynnwys Alwen, Elan, Taf Fechan ac

Efyrnwy, ac mae rhai o'r rhain hefyd yn cyflenwi defnyddwyr yn Lloegr. Er enghraifft, mae cronfa Elan yn cyflenwi dinas Birmingham a chronfa Efyrnwy yn cyflenwi defnyddwyr yng Ngogledd Sir Gaer a Glannau Merswy. Ar draws Cymru daw cyfran fechan (6%) o'r cyflenwad dŵr o ffynonellau dŵr daear.

Mae ffeithiau crynodeb am isadeiledd cyflenwad dŵr y rhanbarth yn cael eu rhoi yn Nhablau 2 a 3 ynghyd â gwybodaeth ddaearyddol a demograffig amlinellol.

Tabl 2: Nifer o dynfeydd dŵr (ar gyfer pwrpasau Rheoliadau 16a)

| Cwmni | Dŵr Daear | Dŵr Wyneb | Cyfuniad o ddŵr daear a dŵr wyneb | Cyfanswm |
|--------------------------|-----------|-----------|-----------------------------------|-----------|
| Dee Valley Water | 1 | 3 | 0 | 4 |
| Dŵr Cymru Welsh Water | 17 | 55 | 1 | 73 |
| Severn Trent | 5 | 0 | 0 | 5 |
| Cyfanswm | 23 | 58 | 1 | 82 |

Noder: Dyw Albion Water ddim yn echdynnu dŵr yn uniongyrchol felly does ganddyn nhw ddim pwyntiau echdynnu

Tabl 3: Ffeithiau allweddol ynglŷn â threfniadau cyflenwi yng Nghymru

| Ffeithiau allweddol | |
|--|------------|
| Nifer o'r boblogaeth a gyflenwyd | 2,982,260 |
| Dŵr a gyflenwyd (litrau/diwrnod) | 835 miliwn |
| Nifer yr awdurdodau lleol | 22 |
| Nifer y byrddau iechyd lleol | 22 |
| Amcangyfrif o'r nifer o gyflenwadau dŵr preifat | 8,682 |
| Ardal cyflenwi | |
| Sir Fôn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Aberteifi, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd, Merthyr Tydfil, Sir Fynwy, Castell Nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg, Bwrdeistref Sirol Wrecsam. | |
| Gweithfeydd trin | 88 |
| Cronfeydd gwasanaeth | 631 |
| Parthau cyflenwi dŵr | 104 |
| Hyd y prif bibellau dŵr (km (km)) | 27,334 |
| Cyfansoddiad y dŵr | |
| Ffynonellau ar y wyneb | 93% |
| Ffynonellau dŵr daear | 6% |
| Ffynonellau cymysg | 1% |

Profi ansawdd dŵr yfed

Trwy gydol 2009, fe samplodd cwmnïau dŵr y dŵr yfed ar hyd a lled y rhanbarth er mwyn profi cydymffurfiaeth gyda'r safonau yn y rheoliadau cyflenwad dŵr. Cynhaliwyd yn agos i drydydd rhan o'r profion ar ddŵr yfed a dynnwyd o dapiau defnyddwyr a ddewiswyd ar hap. At bwrpasau monitro, rhennir ardaloedd cyflenwi dŵr cwmnïoedd yn barthau wedi eu seilio ar boblogaeth (mwyafrif 100,000). Yn gyffredinol, tynnir y samplau o dapiau defnyddwyr a bydd nifer y profion angenrheidiol ar ei uchaf yn yr ardaloedd gyda'r boblogaeth fwyaf. Mae lleoliadau samplo eraill yn cynnwys gweithfeydd trin dŵr ac o gronfeydd ddŵr wedi ei drin (gwasanaeth). Gyda'i gilydd, cynhaliodd y pedwar cwmni dŵr gyfanswm o 287,223 o brofion yn ystod 2009. Dim ond 99 o'r profion hyn a fethodd gyrraedd y safonau a bennir yn y rheoliadau.

Tabl 4: Nifer o brofion a gynhaliwyd gan y cwmnïau yn y rhanbarth

| Cwmni | Man samlo | | | Nifer y profion fesul cwmni | Amcangyfrif o'r boblogaeth |
|----------------------------|------------------------|--------------------------|-----------------------------|-----------------------------|----------------------------|
| | Gweithfeydd trin dŵr | Cronfeydd gwasanaeth | Tapiau defnyddwyr (parthau) | | |
| Albion Water | 0 (0) | 0 (0) | 568 (1) | 568 | 260 |
| Dee Valley Water | 8,419 (4) | 9,224 (29) | 7,134 (13) | 24,777 | 159,000 |
| Dŵr Cymru Welsh Water | 40,314 (77) | 119,144 (453) | 74,660 (80) | 234,118 | 2,770,000 |
| Severn Trent Water | 3,432 (2) | 21,810 (57) | 2,518 (10) | 27,760 | 53,000 |
| Cymru'n gyffredinol | 52,165 (83) | 150,178 (539) | 84,880 (104) | 287,223 | 2,982,260 |

Mae'r niferoedd yn y cromfachau'n adlewyrchu nifer y gweithfeydd, y cronfeydd neu'r parthau a weithredwyd gan y cwmni hwnnw yn y rhanbarth yn 2009. Mae gan rai cwmnïau'r hawl i gynnal rhai profion ar samplau a gymerwyd o bwyntiau cyflenwi yn hytrach nag o dapiau defnyddwyr.

Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau i'r cwmni profi am bamedrau penodol ar amleddau rhagnodedig. Cynhelir mwyafrif y profion er mwyn profi am bamedrau gyda safonau Ewropeaidd neu Genedlaethol, ond mae'n ofynnol i'r cwmnïau dŵr hefyd, yn ôl y rheoliadau, i brofi am bamedrau eraill megis amoniwm, sylffad a chyfrifiadau coloni.

Mae canlyniadau diddordeb yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn. Mae crynodeb llawn o ganlyniadau'r profi gan bob cwmni ar wefan yr ADY

(www.dwi.gov.uk) ac ar y cryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn. Mae'r tablau sy'n crynhoi canlyniadau'r profi yn cynnig y lefelau isaf, uchaf a'r cymedrig blynyddol ar gyfer paramedrau unigol ar gyfer pob cwmni.

Canlyniadau ansawdd dŵr yfed

Cyflwynir canlyniadau allweddol ansawdd dŵr Cymru mewn dau dabl, un yn dangos y canlyniadau ar gyfer paramedrau microbiolegol (Tabl 5), a'r llall yn delio â pharamedrau cemegol a ffisegol (Tabl 7). Trafodir ansawdd microbiolegol y dŵr yn gyntaf. Mae'r cwmnïau'n cyflwyno holl ganlyniadau eu profion yn fisol i'r Arolygiaeth. Cyflwynir crynodeb o ganlyniadau'r profion oddi wrth bob cwmni ar wefan yr Arolygiaeth www.dwi.gov.uk ac mae hefyd ar gael ar y gryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn. Hefyd ceir crynodeb o ystadegau'n disgrifio perfformiad pob cwmni sy'n cyflenwi yng Nghymru yn *Atodiad 6*.

Ansawdd Microbiolegol

Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, mae'n rhaid cyrraedd safonau microbiolegol ymhob un o'r gweithfeydd trin dŵr a'r cronfeydd gwasanaeth. Mae'r canlyniadau'n cadarnhau diogelwch microbiolegol cyffredinol y cyflenwadau dŵr yfed oddi fewn i'r rhanbarth. Mae arwyddocâd pob un o'r paramedrau microbiolegol ym mhob lleoliad yn amrywio ac ni ellir dehongli canlyniad positif unigol heb ystyried ffeithiau eraill. Disgwylir i bob cwmni ddilyn yr arfer gorau fel y'i nodir yn *The Microbiology of Drinking Water* a gyhoeddir gan Bwyllgor Sefydlog y Dadansoddwyr (SCA) ac a welir yn yr adran 'Gwasanaethau Masnachol' gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd (www.environment-agency.gov.uk).

Tabl 5: Profion Microbiolegol
Y nifer o brofion a gynhaliwyd a'r nifer o brofion nad oedd yn cyrraedd y safon

| Paramedr | Safon Presennol | Cyfanswm nifer y profion | Y nifer o brofion nad oedd yn cyrraedd y safon | Gwybodaeth ychwanegol |
|--|--|--------------------------|--|--|
| Dŵr yn gadael gwaith trin dŵr | | | | |
| <i>E.coli</i> | 0/100ml | 6,825 | 1 | DWR (1) |
| Bacteria Coliform | 0/100ml | 6,825 | 5 | DWR (5) |
| <i>Clostridium perfringens</i> | 0/100ml | 2,288 | 2 | SVT (1), DWR (1) |
| Cymylogrwydd ¹ | 1NTU | 10,117 | 5 | DVW (3), DWR (2) |
| Dŵr yn gadael cronfeydd gwasanaeth | | | | |
| <i>E.coli</i> | 0/100ml | 25,039 | 4 | DVW (1), DWR (3) |
| Coliform bacteria | 0/100ml mewn 95% o brofion ym mhob cronfa | 25,039 | 22 | DVW (5), DWR (16), SVT (1) Llwyddodd y 539 cronfa yn y rhanbarth i gwrdd â'r rheol cydymffurfiaeth 95%. |
| Dŵr a samplwyd yn nhapiau defnyddwyr | | | | |
| <i>E.coli</i> | 0/100ml | 7,855 | 1 | DWR (1) |
| Enterococci | 0/100ml | 638 | 0 | |
| Notes: | | | | |
| ¹ Mae cymylogrwydd yn baramedr rheoli hanfodol ar gyfer trin dŵr a diheintio. | | | | |

***E.coli* a choliform mewn gweithfeydd**

Yn 2009, cynhaliwyd cyfanswm o 6,825 prawf gan yr holl gwmnïau yn y rhanbarth. Os darganfyddir *E.coli*, mae'n ofynnol ar gwmnïau i ymateb ar fyrder er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Yr ymateb cyntaf ar ôl dod o hyd i *E.coli* yw samplo eto ac mewn ardal ehangach er mwyn cadarnhau bod y dŵr sy'n cyrraedd y defnyddwyr yn ddiogel. Canfuwyd *E.coli* mewn dim ond un smpl (Dŵr Cymru Welsh Water).

Yn dilyn darganfod *E.coli* a choliform yn ystod Mis Ebrill mewn sampl o Waith Alwen ger Betws y Coed cyhoeddwyd rhybudd i ferwi dŵr i 75,000 eiddo yn ardaloedd Cei Connah, Flint, yr Wyddgrug a Threffynnon yn Sir

Ddinbych. Roedd samplau archwiliadol Dŵr Cymru Welsh Water a gymerwyd dros y dyddiau nesaf yn cynnwys coliform ond nid *E.coli*. Parhaodd y rhybudd i ferwi dŵr yn ei le am naw diwrnod a chafodd ei godi ddim ond ar ôl i nifer o setiau o ganlyniadau boddhaol gael eu cofnodi.

Yn wreiddiol roedd archwiliad y cwmni'n canolbwyntio i ddechrau ar ddau achos potensial: y cyfleusterau samplo a ailosodwyd neu sialens i'r broses drin yn ansawdd y dŵr craidd. Cymrodd y cwmni nifer o gamau a ddileodd y cyfleusterau samplo fel achos. Yn dilyn methiant coliform cynharach ym Mis Ionawr 2009, roedd y cwmni wedi dechrau adolygiad o'r broses drin ar y safle ac roedd yr arolygiaeth wedi cynllunio archwiliad o'r safle ar gyfer Mis Mai 2009.

Ni nododd archwiliad yr arolygiaeth fod yna broblemau gyda digonolrwydd diheintio yn y safle. O ganlyniad i'r darganfyddiadau hyn cyhoeddodd yr Arolygiaeth rybudd dan Reoliad 28(4) oedd, ymhlith pethau eraill, yn cyfyngu ar gyfaint y cynhyrchu yng ngwaith Alwen nes bod yr holl welliannau angenrheidiol i'r broses diheintio wedi eu cwblhau gan y cwmni.

Yn Dŵr Yfed 2008 cafodd methiant yn y safon ar gyfer *E.coli* yng Ngwaith Cwellyn ger Caernarfon ei drafod. Cymerodd yr Arolygiaeth gamau gorfodi i fynnu bod Dŵr Cymru Welsh Water yn archwilio ac optimeiddio'r broses trin ac archwilio effeithiolrwydd a priodoledd y prosesau samplo, hidlo a diheintio yn y safle. Canlyniad y gwaith hwn oedd penderfyniad gan y cwmni i wneud buddsoddiad sylweddol mewn triniaeth ychwanegol yng Ngwaith Cwellyn i ddelio â phresenoldeb parhaus *Cryptosporidiwm* yn y dŵr ffynhonnell. Cafodd y cynllun ei gwblhau ym Mis Mawrth 2010ac mae o fudd i 108,521 o ddefnyddwyr yng Nghaernarfon, Bangor, Gogledd a De Ynys Môn.

Tabl 6: Darganfod *E.coli* ac Enterococci mewn gweithfeydd trin, cronfeydd gwasanaeth a thapiau defnyddwyr

| Cwmni | <i>E.coli</i> mewn dŵr yn gadael y gweithfeydd trin | <i>E.coli</i> mewn dŵr yn gadael y cronfeydd gwasanaeth | <i>E.coli</i> mewn tapiau defnyddwyr | Enterococci mewn tapiau defnyddwyr |
|---|---|---|--------------------------------------|------------------------------------|
| Albion Water | 0 – 0 | 0 – 0 | 0 – 12 | 0 – 4 |
| Dee Valley Water | 0 – 1,146 | 1 – 1,537 | 0 – 480 | 0 – 96 |
| Dŵr Cymru Welsh Water | 1 – 5,187 | 3 – 19,867 | 1 – 7,204 | 0 – 513 |
| Severn Trent Water | 0 – 492 | 0 – 3,635 | 0 – 159 | 0 – 25 |
| Cymru'n gyffredinol | 1 – 6,825 | 4 – 25,039 | 1 – 7,855 | 0 – 638 |
| Noder: Dangosir y canlyniadau fel nifer y profion cadarnhaol – cyfanswm y profion | | | | |

Mae cynnal profion am facteria coliform yn rhoi tawelwch meddwl bod y dŵr sy'n mynd i mewn i'r cyflenwad wedi cael ei drin yn ddigonol i gael gwared ar bathogenau bacteria a firws. Felly mae achosion niferus o facteria coliform mewn samplau a gymerir o un gwaith mewn blwyddyn felly'n achos pryder a bydd gofyn gweithredu. Yn 2009 cododd y sefyllfa yma mewn dim ond un o'r 88 o weithfeydd yng Nghymru. Dyma oedd y sefyllfa yng ngwaith Alwed a ddisgrifiwyd uchod.

Yng Ngwaith Alaw yn ardal Gogledd Ynys Môn yng Nghymru canfu Dŵr Cymru Welsh Water goliform mewn sampl a gymerwyd ym Mis Gorffennaf. Er gwaethaf sampl helaeth, a roddodd ganlyniadau boddhaol, ni chafwyd hyd i unrhyw achos. Nododd yr Arolygiaeth bod yna golli pŵer wedi digwydd yn yr ardal ychydig ddyddiau cyn y methiant.

Mae'r Arolygiaeth wedi nodi bod bacteria coliform wedi eu canfod mewn pedwar o samplau eraill o weithfeydd trin yng Nghymru yn ystod y flwyddyn (4 DWR) a bydd y wybodaeth yma'n hysbysu rhaglen yr Arolygiaeth o archwiliad technegol wedi ei seilio ar risg.

Cryptosporidiwm mewn gweithfeydd

Mae'r rheoliadau'n ymwneud â monitro *Cryptosporidiwm* mewn dŵr wedi ei drin wedi eu newid ers 1 Hydref 2008 pan newidiwyd yr asesiadau risg oedd yn ymwneud yn benodol â *Cryptosporidiwm* a monitro perthnasol am asesiadau risg aml-berygl cynhwysfawr ar gyfer pob gwaith trin a'r system gyflenwi perthnasol (Rheoliad 27 a 28). Dan y gyfundrefn newydd mae monitro dŵr crai yn dod yn ofyniad statudol.

Ar draws Cymru mae yna 38 safle lle mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi nodi risg sy'n berthnasol i *Cryptosporidiwm* sydd wedi cael ei gadarnhau trwy fonitro dŵr crai neu ddŵr wedi ei drin yn ystod 2009. Fel rhan o'r arolwg pris (PR09) mae yna nawr 30 o raglenni gwella statudol yn eu lle i ddelio â'r risg o *Cryptosporidiwm*. Mae wyth o'r rhain yn ymwneud â chyflenwadau consesiynol lle mae yna ofid am ddigonolrwydd y diheintio er bod dyfeisiadau Uwch fioled yn eu lle wrth y pwynt defnyddio. O'r 22 o gynlluniau sydd ar ôl, mae dau'n golygu gadael y cyflenwad ac mae'r lleill yn gofyn am osod diheintio uwch fioled, yn aml mewn cysylltiad â gwelliannau eraill yn y gwaith trin. Yn ychwanegol at hyn mae'r Arolygiaeth wedi rhoi yn eu lle rybuddion Rheoliad 29(4) yn gofyn i Ddŵr Cymru Welsh Water liniaru'r risg o *Cryptosporidiwm* mewn wyth safle arall unai trwy well cymylogrwydd a dulliau eraill o fonitro (4) neu trwy well trefniadau hidlo neu ddiheintio (4). Gellir gweld manylion y rhaglenni gwaith yma i gyd yn *Atodiad 4*.

Clostridium perfringens

Bacteria sy'n ffurfio sbôr yw'r organeb hon ac mae'n hynod o wrthiannol yn erbyn amodau anffafriol yn amgylchedd y dŵr tebyg i eithafion mewn tymheredd a phrosesau pH a diheintio tebyg i glorineiddio a golau uwchfioled. Mae'n elfen naturiol o fflora coluddol hyd at 35% o fodau dynol ac anifeiliaid gwaed cynnes eraill. Mae'r nodweddion hyn yn ei wneud yn ddangosydd defnyddiol o ddifwyniant ymgarthol achlysurol neu hanesyddol o ffynonellau dŵr daear neu o berfformiad gwaith hidlo dŵr wyneb. Os oes unrhyw *Clostridium perfringens* yn cael ei ddarganfod yn y cyflenwad dylai'r cwmni gychwyn ar archwiliad yn syth.

Yn 2009, o'r 2,288 o samplau a gymerwyd ar hyd Cymru gyfan dim ond dwy wnaeth ddim cyrraedd y gwerth a bennwyd ar gyfer *Clostridium perfringens* (1 DWR, 1 SVT).

Roedd sampl a gymerwyd ym Mis Rhagfyr yng Ngwaith Felindre ger Abertawe'n cynnwys *Clostridia Perfringens*. Cofnododd Dŵr Cymru Welsh Water fod pob sampl gymerwyd ar ôl hyn yn foddhaol a bod y gwaith yn ymddangos fel petai'n gweithredu'n normal ar y pryd. Mae'r Arolygiaeth wedi nodi bod gwaith Felindre'n tynnu ei ddŵr o'r Afon Tywi sy'n arddangos ansawdd dŵr newidiol. Mae asesiad risg y cwmni ar gyfer Felindre'n dod i'r casgliad bod y driniaeth sydd yn ei le un ddigon i liniaru natur 'fflachiog' y ffynhonnell.

Daethpwyd o hyd i *Clostridium perfringens* mewn sampl a gymerwyd gan Severn Trent Water o dap defnyddiwr ym mharth ansawdd dŵr Machynlleth ym Mis Ionawr. Does yna ddim achosion pellach o ganfod *Clostridia Perfringens* yn y parth yma. Cyflenwir y parth yma gan Waith Llanwrin sy'n cynnwys dŵr daear a diheintydd â chlorin.

Cymylogrwydd mewn gweithfeydd

Mesur o faint o olau sy'n gallu pasio trwy ddŵr yw cymylogrwydd ac mae'n nodi cyflwr neu "gymyledd" dŵr. Mae cymylogrwydd yn cael ei achosi gan ronynnau'n hongian yn y dŵr ac mae'n fesur pwysig i reoli mesur diheintio. Mae cymylogrwydd yn cael ei fesur ar ddau bwynt ar hyd y gadwyn gyflenwi, mewn gweithfeydd trin lle mae'r safon 1NTU mewn grym ac mewn tapiau defnyddwyr lle mae'r safon 4NTU mewn grym.

Mae'r drafodaeth ganlynol yn canolbwyntio ar ganlyniadau samplau a gymerwyd mewn gweithfeydd trin. Am wybodaeth ar brofion a gynhaliwyd mewn tapiau defnyddwyr, gweler y pennawd 'Cymylogrwydd' yn yr adran *Ansawdd Cemegol*.

Yng Nghymru yn 2009 roedd yna bum achlysur allan o gyfanswm o 10,117 o brofion lle roedd y gwerth yn uwch nag 1NTU mewn gweithfeydd trin dŵr (3 DVW, 2 DWR). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r 14 o ganlyniadau anffafriol a nodwyd yn 2008.

Ym Mis Chwefror roedd cymylogrwydd yn uwch nag 1NTU mewn sampl a gasglwyd o waith Pendinas Newydd ger Llandegla, gaiff ei weithredu gan Dee Valley Water. Ond roedd darlleniad y monitor ar-lein yn llai nag 1NTU ar adeg y samplo ac roedd yna arwyddion y gallai'r llinell samplo fod yn ffactor gyfrannol.

Yn 2009 roedd yna un canlyniad sampl sengl oedd yn fwy na 1NTU o waith Legacy Dee Valley Water, ger Wrecsam ym Mis Medi. Mae hyn yn cymharu â 3 canlyniad anfoddhaol o'r un gwaith yn 2008. Mae'r cwmni eisoes wedi cychwyn ar waith adferol i glirio gwaddodion manganîs sydd wedi casglu o'r tanc cyswllt ac roedd y darlleniad monitor ar-lein yn llai nag 1NTU ar adeg y canlyniad anfoddhaol ym Mis Medi. Ers hynny mae'r cwmni wedi amnewid y llinell samplo ac roedd pob canlyniad cymylogrwydd dilynol yn 2009 yn foddhaol.

Yng ngwaith Brychdyn cofnodwyd lefel uwch o gymylogrwydd mewn sampl a gasglwyd ym Mis Hydref. Roedd samplau eraill o ddŵr oedd yn gadael y gwaith a gasglwyd yr un pryd yn arddangos canlyniadau boddhaol is o gymylogrwydd ac roedd y darlleniadau monitro cymylogrwydd dan 1NTU. Mae'r holl ganlyniadau cymylogrwydd o waith Brychdyn wedi bod yn foddhaol.

Yng ngwaith Carno Isaf Dŵr Cymru Welsh Water ym Mhowys, cafodd cyfanswm o 3.8NTU ei briodoli i waddodion a gasglwyd oddi fewn i'r llinell samplo gafodd eu hamnewid gan y cwmni. Mae pob sampl ers hynny wedi roi canlyniadau boddhaol.

Ym Mis Gorffennaf cafwyd canlyniad oedd yn dangos cymylogrwydd uwch mewn sampl a gasglwyd o waith Cwmtyleri, Blaenau Gwent. Roedd y methiant hwn yn dilyn cyfod o gau'r gwaith wedi ei gynllunio yn cynnwys y system diheintio. Mae cwmnïau'n ymgymryd â'r math yma o ffug brofi yn rheolaidd er mwyn sicrhau cryfder y gweithdrefnau cau i lawr awtomatig petai achos o golli diheintio. Mae gwaith Cwmtyleri'n gysylltiedig i waith arall (Talybont) ac achosodd y cau i lawr a gynlluniwyd newid mewn llif yn y rhwydwaith. Daeth Dŵr Cymru Welsh Water i'r casgliad mai daliant gwaddodion manganîs yn y prif gyflenwad oedd achos y methiant cymylogrwydd. Mae asesiad risg y cwmni'n dynodi manganîs fel perygl gaiff ei liniaru gan driniaeth i gael gwared â manganîs. Mae'r Arolygiaeth wedi argymhell bod gweithdrefnau cynnwys a diffodd yn cael eu hadolygu a'u gwella er mwyn rhwystro unrhyw effeithiau anffafriol ar berfformiad y cyfarpar a'r driniaeth yn y dyfodol.

Gyda'i gilydd mae'r pum achos yn 2009 o gymylogrwydd uwch yn atgyfnerthu'r angen i gwmnïau fod yn fwy gwyliadwrus pan yn gosod ac yn cynnal cyfarpar monitro, yn cynnwys llinellau sampl, gan gymryd gofal i sicrhau bod y gwaith yn amlwg yn cymryd i ystyriaeth, ac yn brwydro'n erbyn, y tebygolrwydd o gynhyrchu canlyniadau sydd ddim yn gynrychioladol o'r dŵr sy'n mynd i mewn i'r cyflenwad.

E.coli mewn cronfeydd gwasanaeth

Yn 2009, ar draws y rhanbarth cynhaliwyd cyfanswm o 25,039 o brofion mewn cronfeydd gwasanaeth gan y cwmnïau i gyd.

Cafodd *E.coli* ei ddarganfod ar bedwar achlysur yn 2009 mewn pedair cronfa wasanaeth: Cronfa Garth Glyn a redir gan Dee Valley Water, Cronfa Frongoch, Cronfa Bryn Llys a Spa i gyd yn eiddo i Dŵr Cymru Welsh Water. Mae hyn yn cymharu â thri methiant yn 2008 o gyfanswm o 26,145 o samplau cronfeydd gwasanaeth ar draws Cymru.

Ar ôl canfod *E.coli*, mae gofyn i gwmnïau weithredu'n brydlon i amddiffyn iechyd y cyhoedd. Yr ymateb syth, wrth ddarganfod *E.coli* mewn cronfa wasanaeth yw samlo eto ac yn ehangach er mwyn cadarnhau bod y dŵr gaiff ei dderbyn gan ddefnyddwyr yn ddiogel. Yn 2009, rhoddodd y profion ychwanegol hyn ganlyniadau boddhaol ym mhob achos ond un, cronfa Spa, lle cyhoeddwyd rhybudd rhagofalus i ddefnyddwyr i ferwi dŵr nes gallai'r cwmni gwblhau eu harchwiliadau ac y gellid sicrhau ansawdd y dŵr.

Yng Nghronfa Wasanaeth Garth Glyn ger Glyn Ceiriog roedd *E.coli* a bacteria coliform yn bresennol mewn sampl arferol a gasglwyd gan Dee Valley Water ym Mis Mai. Cymrodd y cwmni'r safle allan o wasanaeth gan gynnal archwiliad mewnol. Datgelodd hyn bwynt mynediad yn y to. Yna gwnaeth y cwmni waith adferol ym Mis Gorffennaf gan ddychwelyd y safle i gyflenwi. Ers hynny mae'r cwmni wedi adeiladu cronfa newydd ar yr un safle a chafodd hyn ei gomisiynu ac fe ddechreuodd gyflenwi ym Mis Ebrill 2010.

Hefyd ym Mis Mai, darganfu Dŵr Cymru Welsh Water *E.coli* a bacteria Coliform yng Nghronfa Frongoch ger y Bala. Dangosodd archwiliadau'r cwmni ar adeg y samlo ei bod wedi bod yn bwrw'n drwm a bod yna goed mawr yn hongian dros y pwynt samlo, gan godi cwestiynau ynglŷn ag addasrwydd y pwynt samlo. Cafodd y dos o glorin yng ngwaith Bontgoch ei gynyddu fel rhagofal a rhoddodd y samplau ychwanegol o'r gwaith, cronfa i lawr yr afon ac eiddo cwsmeriaid ganlyniadau boddhaol. Ar ôl hynny tynnwyd y gronfa allan o wasanaeth er mwyn cynnal archwiliad mewnol. Datgelodd hyn nifer o faterion yn cynnwys craciau yn y llawr a manau potensial o fynediad yn y to. Gwnaeth y cwmni waith adferol ym Mis Tachwedd 2009 a diweddarwyd yr asesiad risg rheoliad 28 er mwyn

adlewyrchu'r mesurau gymerwyd i liniaru'r risg. Ers y cyfnod hwn does yna ddim rhagor o fethiannau wedi eu nodi. Nododd yr Arolygiaeth ymateb cynhwysfawr ac amserol y cwmni wedi eu seilio ar y cynllun diogelwch dŵr.

Ar y 24 a 25 o Awst 2009 canfuwyd *E.coli* a choliform mewn samplau o gronfa wasanaeth Bryn Llys, ger Llyn Conwy, a chronfa wasanaeth Spa cyfagos. Cafodd yr Arolygiaeth eu hysbysu o'r ddau ddigwyddiad fel achosion ansawdd dŵr.

Mae cronfa wasanaeth Spa yn danc uchel sy'n gwasanaethu tri eiddo yn cynnwys dwy fferm. Wrth ymchwilio, cafwyd bod coliform yn bresennol dro ar ôl tro mewn samplau o'r gronfa a thapiau yn yr lleoliadau yma gan orfodi cyhoeddi cyngor i ferwi dŵr. Yn gynharach yn ystod y flwyddyn (Mis Ebrill) roedd y cwmni wedi cynnal archwiliad allanol o'r tanc. Er nad oedd yna faterion strwythurol amlwg fe nododd y cwmnin drosiant isel a'r potensial i fynediad ddigwydd yn y dyfodol a chafodd y safle ei nodi fel un gaiff ei gadael yn segur. Er nad oedd yna unrhyw faterion strwythurol amlwg, nododd y cwmni drosiant isel a'r potensial i ollyngiadau ddigwydd yn y dyfodol a chafodd y safle ei rhaglennu i gael ei gwagio. Yn anffodus cafodd y gwaith i hwyluso'r gwagio ei oedi ac yn ystod y cyfnod hwn y digwyddodd y methiant. Er bod y cwmni wedi gweithredu'n gyflym i symud y tanc o'r cyflenwi ar ôl y methiant roedd yr Arolygiaeth yn feirniadol o'r oedi yma a achosodd, yn y pen draw, i ddefnyddwyr dderbyn dŵr nad oedd yn iach a dioddef yr anghyfleustra o dderbyn rhybudd i ferwi dŵr.

Er nad oedd y methiannau *E.coli* a coliform yng nghronfa wasanaeth Bryn Llys yn gysylltiedig â'r rhai ar y safle Spa, roedd yna ffactor gyffredin, sef bod y cwmni wedi amserlennu gwaith galluogi i hwyluso gwagio'r safle a chafodd y gwaith yma'i ohirio. Roedd y risg canfyddadwy ar y safle hon yn gysylltiedig â'r trefniadau samplu anfoddhaol. Roedd y rhain yn cael eu gwasanaethu gan bibell gyflenwi tua un gilomedr o hyd yn croesi tir amaeth agored. Mae'r gronfa'n bwydo naw lleoliad a dangosodd samplau bod ansawdd y dŵr yn nhapiau defnyddwyr yn foddhaol.

Roedd yr Arolygiaeth yn pryderu cymaint am y patrwm oedd yn datblygu o fethiannau yn ymwneud â chronfeydd gwasanaeth yn ystod Mis Awst nes iddyn nhw dalu ymwelid â swyddfeydd Dŵr Cymru Welsh Water yn gynnar ym Mis Medi i archwilio trefniadau'r cwmni ar gyfer rheoli a chynnal a chadw cronfeydd gwasanaeth. Er i'r ymweliad ddangos bod gan y cwmni dîm pwrpasol yn ei le yn arolygu rheoli cronfeydd gwasanaeth. Gyda chyfarwyddiadau gweithredu clir ar gyfer pob safle, roedd yr Arolygiaeth yn feirniadol o'r nifer o safleoedd risg uchel lle roedd y cofnodion yn dangos bod angen gweithredu adferol ond ei fod wedi ei ohirio a bod problemau'n dal heb eu datrys. Argymhellodd yr Arolygiaeth ddatblygu a gweithredu polisi canolog ar gyflenwi a pherchnogaeth y rhaglen glanhau ac archwilio cronfeydd gyda chysylltiadau clir gyda swyddogaeth cyflenwi buddsoddiad

y cwmni. Mae'r Arolygiaeth yn monitro'n agos weithrediad y cwmni o weithrediadau wedi eu cynllunio (gweler yr Adran gweithgaredd archwilio technegol).

Mae'r ddau ddigwyddiad yma'n dangos yr angen i ganiatau ymateb yn gyflym i risgiau a nodir trwy'r cynlluniau diogelwch dŵr.

Bacteria coliform mewn cronfeydd gwasanaeth

Mae cynnal profion am facteria coliform yn cynnig tawelwch meddwl bod ansawdd y dŵr a gedwir yn y pwyntiau strategol yma yn y system ddosbarthu yn cael ei gynnal yn ddigonol. Mae'r safon genedlaethol yn na ddylai o leiaf 95% o leiafswm o 50 o samplu a gymerir o bob un cronfa wasanaeth trwy gydol blwyddyn yn rhydd o unrhyw facteria coliform. Yn 2009 roedd pob un o'r 631 o gronfeydd gwasanaeth (yn cynnwys tyrrau dŵr) yn y rhanbarth yn cwrdd â'r safon.

Yn 2009 roedd yna 22 achlysur lle canfuwyd bacteria coliform mewn samplau o gronfeydd dŵr (5 DVW, 16 DWR, 1 SVT). Mae hyn yn cymharu â 23 canfyddiad positif o goliform mewn cronfeydd dŵr yn 2008. Er nad yw perfformiad cyffredinol Cymru ddim wedi newid, yn achos cronfeydd dŵr a reolwyd gan Severn Trent Water in 2009, dim ond un achos anfoddhaol sampl a gafwyd o gronfa ddŵr Cemaes ger y Drenewydd ym Mis Chwefror o'i gymharu â thri achlysur yn 2008.

Cofnododd Dee Valley Water bacteria coliform mewn samplau o gronfeydd gwasanaeth Penrhos a Phenypalmant, Gilfach, a Church Hill. Digwyddodd y methiannau hyn yn y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi ac mae'r tair safle'n cael eu cyflenwi gan yr un gwaith (Llwyn Onn). Mae'r cwmni wedi dynodi ffactor gyffredin o lefelau isel a rhai sy'n dirywio o ddiheintydd gweddilliodd clorin yn ystod misoedd yr haf. Cymrodd y cwmni gamau i gynyddu lefelau clorin ym mhob un o'r safleoedd i amddiffyn iechyd y cyhoedd yn y tymor byr ond mae'r Arolygiaeth yn feirniadol o hyn fel dull i ddelio â methiannau coliform yn absenoldeb *E.coli* oherwydd y gallai rwystro'r archwiliad a chuddio unrhyw halogiad ehangach. Ers hynny mae Dee Valley Water wedi dadgomisiynu cronfa Penypalmant a'i amnewid mewn cydweithrediad â gorsaf bwmpio newydd.

Mae'r cwmni wedi adrodd eu bod yn ystyried y defnydd o glorineiddio eilaidd yng nghronfa Church Hill er mwyn cynnal lefelau clorin uwch a mwy cyson yn yr ardal yn gyffredinol. Mae cwmnïau'n cael eu hatgoffa nad yw defnyddio clorineiddio atgyfnerthol yn amnewidyn am gynnal cywirdeb microbiolegol oddi fewn i'r rhwydwaith dosbarthu. Mae'r Arolygiaeth yn monitro cynnydd Dee Valley Water yn agos wrth iddyn nhw gymryd camau adferol yn y safleoedd hyn a bydd hyn yn hysbysu rhaglen archwilio'r Arolygiaeth wedi ei seilio ar risg yn 2010.

Ym Mis Rhagfyr darganfuwyd Coliform yng nghronfa Beudy Mawr ger Llanbedrog. Cynyddodd Dŵr Cymru Welsh Water y trosiant yn y safle trwy ynysu rhan o gronfa i fyni'r afon yn Saethon Fawr ac yn dilyn canfyddiadau eraill o facteria coliform mewn samplau archwiliadol o ardal cyflenwi'r gronfa ac i lawr yr afon, fe gynyddon nhw'r clorin gweddilliol trwy ddiosi'r gronfa. Wedyn fe dynnodd y cwmni'r safle allan o wasanaeth ar gyfer archwiliad mewnol ac fe ddarganfuon nhw nifer o broblemau a allai fod wedi caniatáu i halogiad fynd i mewn i'r gronfa. Mae'r safle'n dal i fod allan o wasanaeth yn disgwyl cwblhau gwelliannau strwythurol.

Roedd sampl a gasglwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water o Gronfa Rhosymryson ym Mis Mehefin yn cynnwys bacteria coliform a darganfu archwiliad allanol o'r safle man oedd yn gollwng ar y linell sampl copr. Ers hynny mae'r cwmni amnewid y llinell sampl a does yna ddim mwy o fethiannau wedi eu canfod hyd yma.

Roedd sampl coliform positif o gronfa Pantycadno Dŵr Cymru Welsh Water yn Sir Fynwy, ym Mis Chwefror yn gysylltiedig ag adroddiad gan y technegydd sampl bod y tap sampl wedi cael ei niweidio gan weithgaredd torri cloddiau yn y cyffiniau. Mae'r cyfleusterau sampl wedi eu lleoli i ffwrdd oddi wrth y gronfa wrth ochr y ffordd ac mae hyn yn enghraifft o ble gall hi fod yn anodd i gwmnïau i sicrhau cywirdeb cyfleusterau sampl pan fyddan nhw ymhell oddi wrth ardal cronfa'r cwmni ac yn agored i risg fandaliaeth neu berygl gan drydydd parti. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n bwysig i'r rhai sy'n sampl i benderfynu, adrodd a chofnodi os yw'r sampl yn debygol o fod yn anghynrychioladol ar adeg y sampl. Mae'r tap a'r caban bellach wedi eu hamnewid a does dim rhagor o fethiannau wedi eu darganfod.

Yn ystod Mis Chwefror roedd yna nifer o achosion o ganfod coliform mewn cronfeydd gaiff eu gweithredu gan Ddŵr Cymru Welsh Water, i gyd yn cael eu gwasanaethu gan waith Alwen. Cafodd bacteria coliform eu canfod yng nghronfeydd Rhuthun a Chricor ar yr un diwrnod ac roedd yna hefyd gyfrif anarferol o uchel o gyfrif coloni mewn sampl o gronfa Clwyd Gate. Roedd sampl ymchwiliol hefyd yn cynnwys bacteria coliform. Wythnos yn ddiweddarach canfuwyd bacteria coliform mewn sampl o Gronfa Meifod ac roedd samplau ymchwiliol hefyd yn cynnwys Enterococci, Clostridia a chyfrif uchel o facteria heterotroffig. Chafodd yr Arolygiaeth mo'u hysbysu o'r sefyllfa ac ni chafodd chwaith ei rheoli'n brydlon fel digwyddiad ansawdd. Cadarnhaodd archwiliad dilynol gan yr Arolygiaeth ddiffygion difrifol yng ngwaith Alwen. A derbyn diffygion y cwmni yn nhermau nodi a lliniaru risgiau yn brydlon, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Rybudd dan Reoliad 28(4) yn gosod anodau ar y modd mae'r cwmni'n rhedeg y gwaith er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd hyd nes y byddai cywiriad cadarn yn gallu cael ei roi yn ei le yn Alwen (gweler yr adran gynharach ar *E.coli* mewn gweithfeydd).

Mae'r Arolygiaeth wedi nodi bod bacteria coliform wedi ei ddarganfod mewn 22 o samplau ddaeth o gronfeydd gwasanaeth yn rhanbarth Cymru yn ystod y flwyddyn a bydd y wybodaeth yma'n hysbysu gwaith yr Arolygiaeth yn eu rhaglen archwiliad technegol yn seiliedig ar risg.

E. coli ac Enterococci mewn tapiau defnyddwyr

Profwyd cyfanswm o 7,855 o dapiau defnyddwyr yn 2009 am *E.coli* ac Enterococci a dim ond un oedd yn bositif (1, DWR). Doedd yna ddim arwydd, o'r wybodaeth a gasglwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water o unrhyw achos o lygredd ysgarthol yn effeithio ar adeiladau eraill yn y parthau hyn.

Daeth yr unig fethiant ym Mis Rhagfyr o eiddo defnyddiwr yn ardal Llandudno. Roed y sampl yn cynnwys bacteria *E.coli* a coliform. Darganfu Dŵr Cymru Welsh Water bod y defnyddiwr wedi gosod hidlydd dŵr ar y cyflenwad. Roedd y cetrus greiddiol wedi bod yn ei le am gyfnod hir ac roedd yna broblemau gyda'r ffitiadau dŵr cysylltiedig. Cafodd y defnyddiwr gyngor ynglŷn â gofalu am ddŵr oddi fên i'r cartref a'u cynghori i symud y ffitiad.

Fel *E.coli* mae presenoldeb Enterococci'n arwydd o lygredd ysgarthol ac ni ddylid dod o hyd i'r naill facteriwm na'r llall mewn unrhyw sampl. Yn 2009 cynhaliwyd 638 o brofion am Enterococci mewn tapiau defnyddwyr. Doedd dim yn o'r rhain yn cynnwys Enterococci.

Ansawdd cemegol

Mae'r rheoliadau dŵr yfed yn nodi'r anghenion profi isaf ar gyfer pob un o'r paramedrau cemegol a ffisegol. Mae crynodeb llawn o'r profi gan bob cwmni yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer paramedrau'r dangosydd ar gael ar wefan y ADY ac ar y gryno-ddisg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Mae'r testun canlynol a Thabl 7 yn dangos y canlyniadau ar gyfer y paramedrau hynny lle bu yna fethiant i gwrdd â safon Ewropeaidd neu Genedlaethol (safonau ansawdd mandadol) ac unrhyw baramedr arall o ddiddordeb. Yn ogystal â hyn, ar gais yr Awdurdodau Lleol, cynhwysir ganlyniadau'r profion am fflworid, haearn, plwm, manganîs, nitrad, nitraid a phlaladdwyr.

Tabl 7: Paramedrau cemegol a ffisegol
Y nifer o brofion a wnaed a'r nifer o brofion nad oedd yn cwrdd â'r safon

| Paramedr | Safon gyfredol neu grynodiad a nodir ¹ | Cyfanswm nifer y profion | Nifer y profion nad oedd yn cyrraedd y safon | Gwybodaeth ychwanegol |
|--|---|--------------------------|--|-------------------------------------|
| Paramedrau esthetig | | | | |
| – arogl | Dim newid annormal | 1,729 | 8 | DWR (8) |
| – blas | | 1,555 | 1 | DWR (1) |
| Alwminiwm | 200µg/l | 1,831 | 5 | DWR (5) |
| Fflworid | 1.5mg/l | 625 | 0 | |
| Haeam | 200µg/l | 2,426 | 15 | DVW (1), DWR (14) |
| Plwm (safon gyfredol) | 25µg/l | 660 | 1 | DWR (1) |
| Plwm (safon y dyfodol) | 10µg/l | 660 | 7 | DVW (3), DWR (4) |
| Manganîs | 50µg/l | 1,802 | 3 | DWR (3) |
| Nicel | 20µg/l | 661 | 1 | DWR (1) |
| Nitrad | 50mg/l | 911 | 0 | |
| Nitraid | 0.5mg/l | 912 | 1 | DWR (1) |
| Plaladdwyr – Cyfanswm | 0.5µg/l | 617 | 0 | |
| Plaladdwyr – Unigol ² | 0.1µg/l | 23,716 | 2 | MCPA DWR (1) Propyzamide DWR (1) |
| pH (ïon Hydrogen) | 6.5 – 9.5 | 2,206 | 2 | DVW (1), DWR (1) |
| Trihalomethan - Cyfanswm | 100µg/l | 660 | 1 | DWR (1) |
| Nodiadau: | | | | |
| ¹ Er mwyn cymhariaeth, un rhan mewn miliwn yw 1 mg/l, un rhan mewn mil miliwn yw 1µg/l. | | | | |
| ² Cynhaliwyd 2,425 prawf pellach am aldrin, dieldrin, heptachlor, heptachlor epoxide, a llwyddodd pob un i gyrraedd y safon berthnasol. | | | | |

Paramedrau esthetig

Mae defnyddwyr yn disgwyl i'w dŵr yfed fod yn glir ac yn loyw ei ymddangosiad ac yn glir o unrhyw flas neu arogl canfyddadwy. Mewn cydnabyddiaeth o hyn mae'r rheoliadau'n dynodi safonau cenedlaethol ar gyfer lliw, arogl a blas.

Yn 2009 canfuwyd blas ac arogl positif mewn cyfanswm o naw o samplau o dapiau defnyddwyr yn y rhanbarth. Cyrhaeddwyd y safon ar gyfer lliw ym mhob un o'r samplau yn y rhanbarth.

Mae darganfyddiadau positif o flas ac arogl yn cael eu crynhoi isod mewn perthynas â'u natur a'u hachos fel a bennir gan yr archwiliadau gynhaliwyd gan gwmnïau. O'r wybodaeth yma gellir gweld bod rhai wedi eu cyfyngu i bibau neu ffitiadau mewn adeilad unigol. Mewn achosion eraill roedd yna broblem gyda'r modd roedd y cwmni dŵr wedi dilyn y dull dadansoddol. Mae'r Arolygiaeth wedi rhoi canllawiau i gwmnïau i rwystro'r problemau yma rhag codi yn y blynyddoedd i ddod.

- Penseil: (2 DWR) Cofnodwyd 1 blas ac 1 arogl mewn sampl o dap defnyddiwr a gasglwyd o barth Llyswen ym Mis Mehefin (DWR). Mae'r disgrifydd hwn yn benodol i sylwedd a gysylltir â phibell blastig ddu na chymeradwywyd, a'r ateb yw cynghori perchennog y tŷ i newid y bibell am beipen polyethylen dwysedd canolig. Nododd ymchwiliad y cwmni bod y cartrefi yn yr ardal yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau neu eu bod yn aml yn cael eu gadael yn wag oedd yn golygu bod trosiant dŵr isel iawn yn yr ardal. Ers hynny mae'r cwmni wedi cyhoeddi cyngor i berchnogion eiddo ac wedi glanhau dŵr yr ardal er mwyn amddiffyn yn erbyn problemau pellach.
- Sylffwr: 6 (DŴR). Roedd y chwe sampl yn arddangos arogl sylffyraidd. Mae'r disgrifydd hwn yn gysylltiedig â chynnal y prawf lle mae gormodedd o asiant diglorineiddio ar ôl yn y sampl fel y'i cyflwynir i'r panelwyr; mae'r Arolygiaeth wedi cyhoeddi canllaw i gwmnïau a ddylai sicrhau nad yw'r gwallau yma'n cael eu hailadrodd mewn blynyddoedd i ddod. Mae dull wedi ei adolygu y Pwyllgor Sefydlog o Ddadansoddwyr yn cael ei ddatblygu i ddelio â'r problemau gyda'r broses o ddiglorineiddio samplau ar gyfer dadansoddi blas ac arogl sydd yn achos y canlyniadau anghynrychioladol yma.
- Melys: Canfuwyd 1 arogl (DWR) ym mharth Pen-y-bont ar Ogwr/Porthcawl ym Mis Ionawr. Roedd yr holl samplau arogl yn y gwaith yn foddhaol a does yna ddim canfyddiadau arogl eraill mewn samplau o'r parth yma.

Ym Mis Mawrth 2010 cwblhaodd Dŵr Cymru Welsh Water raglen o waith yn ei waith Court Farm wedi ei gynllunio i wella ansawdd dŵr yn achos blas ac arogl. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod amsugnwyr carbon a actifedir gan ronynnau i leihau sylweddau naturiol yn y dŵr crai. Bydd tua 603,745 o ddefnyddwyr yn ac o gwmpas Casnewydd, Caerdydd, Penarth, Malpas a Chas-gwent yn cael budd o'r buddsoddiad yma mewn ansawdd dŵr.

Alwminiwm

Gall alwminiwm ymddangos yn naturiol mewn rhai ffynonellau dŵr yfed. Hefyd gall cemegolion ac iddynt sail alwminiwm gael eu defnyddio i hwyluso'r broses hidlo mewn gweithfeydd trin dŵr wyneb.

Yn 2009 cafodd cyfanswm o 1,831 o samplau eu profi am alwminiwm yng Nghymru. Llwyddodd Dee Valley Water a Severn Trent Water gyrraedd cydymffurfiaeth o 100% gyda'r safon alwminiwm. Dim ond pum prawf oedd yn uwch na'r safon. (5 DWR).

Cododd tri o'r methiannau o gynhyrfu'r gwaddodion a gasglodd yn y rhwydwaith dosbarthu. Weithiau roedd y methiant yn ganlyniad na ellid ei osgoi o waith a gynlluniwyd. Ar ddau achlysur, roedd safonau eraill (haearn neu manganîs) yn uwch yr un pryd.

Yn ystod 2009 digwyddodd tri o'r pum methiant alwminiwm yn ystod yr haf mewn parthau a gyflenwir gan waith Pontsticill ac a weithredir gan Dŵr Cymru Welsh Water. Roedd y methiannau ym mharth Rhymni/Bargoed yn (alwminiwm a haearn) ym Mis Awst yn gysylltiedig â cholli rheolaeth o'r broses geulo yn y gwaith. Gall y methiant gwreiddiol hwn yn y ceulo fod wedi arwain at fethiannau eraill oherwydd cronni gwaddodion yn y system dosbarthu mae'r cwmni'n cymryd camau i ddelio ag ef trwy fflysio (*gweler yr adran digwyddiadau ansawdd Dŵr yfed*). Mae galw ar gwmnïau trwy gyfraith i weithredu'n barhaus waith trin sy'n ddigonol ac mae hyn yn cynnwys rheolaeth effeithiol o'r broses geulo. Mae'r Arolygiaeth yn ystyried y dylai presenoldeb alwminiwm yn y rhwydwaith hysbysu asesiadau risg cwmnïau mewn perthynas â'r mesurau sydd yn eu lle i sicrhau digonolrwydd triniaeth dŵr.

Roedd sampl a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water ym mharth Treffynnon/ Yr Wyddgrug ym Mis Chwefror yn uwch na'r safonau ar gyfer alwminiwm a haearn. Mae'r cwmni wedi nodi'r ardal hon fel un sydd â gwaddodion prif gyflenwad hanesyddol. Cymrodd y cwmni gamau i fflysio'r ardal er mwyn gostwng y lefel o'r gwaddodion hyn ac mae'n parhau i fonitro'r sefyllfa trwy ei raglen Dosbarthu, Gweithredu a Chynnal a Chadw.

Fflworid

Gall olion fflworid ymddangos yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr, yn enwedig dŵr daear. Gall defnyddwyr gael gwybodaeth benodol ynglŷn â lefel y fflworid yng nghyflenwad dŵr eu cartref neu eu gweithle oddi wrth eu cwmni dŵr.

Ni cheir gwared ar fflworid trwy prosesau confensiynol o drin dŵr. Mae rhai cwmnïau'n fflworideiddio cyflenwadau dŵr ar gais yr awdurdod iechyd lleol

fel ymgais i rwystro dannedd rhag pydru. Does yna ddim cynlluniau fflworideiddio yn Rhanbarth Cymru. Yn 2009, llwyddodd pob un o'r 625 prawf am fflworid a gynhaliwyd ar hyd a lled y rhanbarth gyrraedd y safon rheoliadol (1.5mg/l). Am fwy o wybodaeth am fflworideiddio ewch i wefan yr ADY (www.dwi.gov.uk).

Haearn

Gall haearn fod yn bresennol yn naturiol mewn dŵr crai, gall cyfansoddion haearn gael eu hychwanegu fel rhan o'r gwaith trin dŵr neu gellir ei ollwng o ganlyniad i erydiad yn y prif bibelli dŵr haearn. Mae triniaeth dŵr effeithiol yn rhwystro'r problemau hyn rhag codi yn y ffynhonnell. Y dyddiau yma mae'r rhan fwyaf o samplau sy'n methu â chyrraedd y safon ar gyfer haearn yn dod o lefydd lle mae'r rhwydwaith dosbarthu'n cynnwys canran uchel o hen bibau haearn bwrw. Pan fo'r gwaddodion yma'n cael eu disodli gan broblem weithredol (megis prif beipen yn byrstio) gall y dŵr droi'n oren-frown. Gall lefelau uchel o haearn hefyd fod yn annymunol i ddefnyddwyr oherwydd gall y dŵr ymddangos yn gymylog, gall flasau'n egr neu chwerw ac mae'r gwaddodion yma'n hyll ac mae'n bosibl iddyn nhw staenio ffitiadau dŵr.

Mae Tabl 8 yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gan gwmnïau gyda rhaglenni gwaith i ddelio â dŵr afliwiedig yn 2009. Cafodd yr holl waith adnewyddu prif gyflenwadau strategol yng Nghymru eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2010. Bydd yr Arolygiaeth yn parhâi i fonitro'n agos bod cwynion am afliwio'n cael eu trin yn foddhaol yn y dyfodol trwy raglenni cynnal a chadw dosbarthiad cyfredol y cwmnïau.

Tabl 8: Cynnydd gyda rhaglenni gwelliant strategol i systemau dosbarthu

| Cwmni | Hyd y prif bibellau a adnewyddwyd yn 2008 | Hyd y prif bibellau sydd ar ôl i'w hadnewyddu | Adnewyddu wedi ei gwblhau | Dyddiad Cwblhau arfaethedig |
|---|---|---|---------------------------|-----------------------------|
| Albion Water | Dim | Dim | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Dee Valley Water | Dim | Dim | Medi 2004 | Ddim yn berthnasol |
| Dŵr Cymru Welsh Water | 164.2 km | Dim | Maw 2010 | Rhagfyr 2009 |
| Severn Trent Water | Dim | Dim | Chwef 2005 | Ddim yn berthnasol |
| Cymru'n gyffredinol | 164.2 km | Dim | | |
| Noder : Mae hyd a nodir yn berthnasol i'r parthau hynny sy'n gyfan gwbl neu bron i gyd yng Nghymru. | | | | |

Yn 2009, cofnododd Dee Valley Water 1 methiant o'r safon haearn ym mharth Saltney ym Mis Gorffennaf, oedd yn ddigwyddiad ynysig ac a gywirwyd trwy fflysio ac nid oedd yn arwydd o broblem ehangach.

Cofnododd Dŵr Cymru Welsh Water 14 methiant haearn mewn samplau a gasglwyd yn ystod 2009. Mae hyn yn ddirywiad hwn mewn perfformiad o'i gymharu â 2008, pan oedd yna wyth methiant haearn wedi eu cofnodi gan y cwmni. Daeth pump o'r samplau anfodhaol yn 2009 o ardal Dyffryn Rasa/Sirhywi a methodd rhai hefyd y safon ar gyfer manganês, Priodolodd y cwmni'r holl fethiannau hyn i waith a gynlluniwyd sydd ar droed i ailsefydlu'r rhwydwaith ddosbarthu lleol. Mae'r cwmni bellach wedi cwblhau'r gwaith (31 Mawrth 2010).

Methodd sampl a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water ym Mharth Preseli ym Mis Ionawr y safon ar gyfer haearn. Cafodd yr achos ei nodi fel adran fechan o brif gyflenwad haearn bwrw heb ei leinio sy'n bwydo eiddo sengl. Mae'r cwmni wedi sefydlu rhaglen fflysio wythnosol hyd nes y gellir cwblhau'r gwaith i ailgartrefu'r prif gyflenwad.

Roedd samplau a gymerwyd o barthau Cas-gwent/Cil-y-coed a Llyswen ym Mis Awst yn dangos lefelau o haearn oedd yn uwch na'r safon ac hefyd lefelau uwch i sinc. Nododd Dŵr Cymru Welsh Water mai'r achos tebygol oedd pibau cyflenwi galfanedig sy'n gwasanaethu'r eiddo. Mae'r cwmni

wedi rhoi cyngor i ddefnyddwyr y dylai'r pibau gael eu newid er mwyn osgoi problemau pellach.

Methodd sampl a gymerwyd ym mharth Rhiw Goch ym Mis Hydref â chyrraedd y safon ar gyfer haearn a manganîs gan symbylu ymchwiliad ehangach gan Dŵr Cymru Welsh Water. Roedd y prif gyflenwad yn yr ardal wedi cael ei adnewyddu'n llwyr gyda gwaith ychwanegol helaeth i uwchraddio rhai pibau cysylltu cwsmeriaid. Fel arfer mae'r ardal yn derbyn ei gyflenwad o Waith Rhiwgoch ond yn ystod 2009 cafodd y cyflenwad ei drosglwyddo i Waith Cilfor er mwyn hwyluso peth o'r gwaith cynnal a chadw. Mae'r cwmni wedi gwrthod y newid cyflenwad hwn fel achos y methiannau ac mae'n ystyried mai nifer o ollyngiadau yn y prif gyflenwad ym Mis Medi oedd yn debygol o fod yn gyfrifol am symud gwaddodion y prif gyflenwadau o ardaloedd oedd eto i'w hadnewyddu. Fflysiodd y cwmni'r ardal er mwyn lleihau'r risg o broblemau pellach.

Yn 2009 cofnododd Dŵr Cymru Welsh Water fethiant ym mharth Rasa/Sirhywi ym Mis Hydref. Dyma'r pumed methiant haearn yn y parth yma ac roedd yn gysylltiedig â phroblemau trin yn Nantylwch yn ystod y dyddiau cynt. Mae rheolaeth annigonol o' ceulo'n arwain at lwyth gormodol ar dryloywyddion a hidlwyr. Os yw hyn yn para am unrhyw hyd o amser, ac mae yna dystiolaeth ei fod wedi para am bum diwrnod, yna bydd ansawdd y dŵr yn y cyflenwad yn cael ei effeithio er gwaeth a bydd gwaddodion cywasgedig yn casglu yn y rhwydwaith. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed os yw'r lefelau o alwminiwm sy'n gadael y gwaith yn is na'r safon. Mae'n hanfodol bod cwmnïau'n rheoli'r holl brosesau yn eu gwaith gyda thargedau gweithredol wedi eu cynllunio i gynnal ansawdd dŵr yn rhagweithiol. Mae'r Arolygiaeth yn ei hystyried yn amhriodol i gwmnïau i reoli triniaeth dim ond er mwyn cydymffurfio â'r safon yn y gwaith gan fod hyn yn anwybyddu'r angen i gynnal cyflwr y rhwydwaith ac yn y tymor hir yn methu â sicrhau cydymffurfiaid yn nhapiau defnyddwyr. Bydd yr Arolygiaeth yn ystyried unrhyw fethiannau pellach yn y parth yma fel tystiolaeth o fethiant potensial gan y cwmni i gynnal proses drin digonol (o bosib torri ar Reoliad 26 sydd yn drosedd).


Plwm

Y bibell sy'n cysylltu eiddo rhywun â phrif bibell y cwmni dŵr, ynghyd â gwaith plymio mewnol, yw'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o blwm mewn dŵr yfed. Mae adeiladu a godwyd neu a adnewyddwyd ers 1970 yn annhebygol o fod â phibellau plwm, a chafodd defnyddio sodr plwm mewn gosodiadau dŵr yfed copr ei wahardd yn y 1970au cynnar. Yr unig ffynhonnell gydnabyddedig arall o blwm mewn dŵr yfed mewn rhai adeiladau yw ffitiadau wedi eu gwneud o bres. Mae faint o blwm a drosglwyddir o'r bibell i'r dŵr yn dibynnu ar sawl ffactor; tymheredd, asidedd (pH), pa mor galed

yw'r dŵr, hyd y bibell a pha mor hir y saif y dŵr yn y bibell cyn iddo gael ei ddefnyddio.

Mae'r data monitro a gasglwyd gan gwmnïau yn ystod 2009 wedi cael ei ychwanegu gan yr Arolygiaeth i'r hyn a gasglwyd yn y blynyddoedd blaenorol er mwyn darparu darlun wedi ei ddiweddarau o gynnydd i gwrdd â'r safon terfynol ar gyfer plwm o $10\mu\text{g/l}$ erbyn diwedd 2013 (gweler Ffigwr 9).

Ffigwr 9: Canran o'r profion sy'n cwrdd â'r safon presennol a dyfodol ar gyfer plwm rhwng 2001 a 2009



Mae cwmnïau dŵr yn hysbysu'r defnyddiwr a'r awdurdod lleol perthnasol pryd bynnag y digwydd methiant yn y safon plwm o $25\mu\text{g/l}$. Yn 2009 hysbyswyd yr Arolygiaeth am un methiant yn y rhanbarth (1 DWR).

Ym Mis Chwefror cofnododd Dŵr Cymru Welsh Water ganlyniad o $26\mu\text{g/l}$ o blwm mewn samp; a gymerwyd o dap defnyddiwr yn Ninbych. Daeth archwiliadau'r cwmni i'r casgliad bod yna waith plwm yn yr eiddo. Rhoddodd y cwmni gyngor i'r defnyddiwr ar yr angen i ystyried newid y beipen a'r angen i fflysio dŵr cyn ei ddefnyddio i yfed neu baratoi bwyd.

Hefyd yn ystod 2009 allan o gyfanswm o 660 o samplau roedd dim ond saith sampl ddangosodd werth plwm uwch na'r safon ar gyfer y dyfodol o $10\mu\text{g/l}$ (3 DVW, 4 DWR). Gwelodd y rhanbarth gynnydd bychan mewn methiannau o'r safon ar gyfer y dyfodol yn ystod 2009 ac yn gyffredinol mae'r darlun nawr yn adlewyrchu cyfartaledd y diwydiant. Mae Canllaw yr Arolygiaeth ar Reoliadau 2008 yn atgoffa cwmnïau o'r angen i roi gwybod i awdurdodau lleol o ganlyniadau o'r fath (yn ogystal â'r safon cyfredol) ac i

roi cyngor i berchnogion tai pryd bynnag y bydd plwm yn cael ei ddarganfod mewn sampl o dap. Mae Ffigur 9 yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod cwmnïau ac awdurdodau lleol yng Nghymru'n gweithredu nawr i sicrhau cydymffurfiaeth gyda safon plwm y dyfodol erbyn 2013 trwy ddatblygu cynlluniau gweithredu i leihau'r amlygiad i blwm mewn tai hŷn mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol.

Ym Mis Mehefin 2009 cwblhaodd Dŵr Cymru Welsh Water gynllun yng ngwaith Talybont i osod gwaith trin dŵr ychwanegol a gwella cynhwysedd y gwaith i ddelio â phlwm a chyfansoddion sy'n ffurfio blas ac arogl sy'n bresennol yn y dŵr crai. Mae'r gwaith hwn wedi bod o fudd i tua 298,676 o ddefnyddwyr yn adlodd Casnewydd, Glyn Ebwy, Bwlch a'r Fenni.

Hefyd yn ystod 2009, mae cwmnïau yn yr ardal wedi ymateb i 218 o geisiadau defnyddwyr i wirio'r lefel o blwm yn y dŵr yfed mewn adeilad penodol.

Manganîs

Mae manganîs yn bodoli'n naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr. Gellir cael gwared ohono o ddŵr craidd trwy drawsnewid y ffurf doddadwy i ddyddodiad anhoddadwy (ocsidiad). Gall triniaeth fod yn syml i'w gyflawni (awyriad) ond mae angen prosesau mwy cymhleth ar gyfer rhai dyfroedd. Os nad oes triniaeth effeithiol yn ei le yna gall dyddodion du gasglu yn y pibau dosbarthu. Wrth gael eu hysgytio gall dyddodion fel hyn droi'r dŵr yn ddu. Mae hyd yn oed olion bychain o fanganîs yn annymunol i ddefnyddwyr. Mae cwynion nodweddiadol yn sôn am staenio dillad yn y golch neu newid lliw llyisiau wrth eu golchi neu eu coginio. Pwrpas y safon ar gyfer manganîs yw lleihau'r problemau yma. Yn 2009, cofnododd Dŵr Cymru Welsh Water dri methiant o'r safon manganîs.

Ym Mis Gorffennaf methodd sampl o barth Penderyn ger Aberdâr y safon ar gyfer manganîs. Doedd yna ddim tystiolaeth benodol i bennu achos ar gyfer y methiant hwn ond ni ellid diystyru aflonyddu gwaddodion hanesyddol yn y prif gyflenwad yn dilyn newidiadau yn llif y dŵr. Caiff y perth ei gyflenwi gan waith Hirwaun a brofodd problemau ceulo a rheoli prosesau yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Bydd yr Arolygiaeth yn monitro'r sefyllfa'n agos i gael unrhyw dystiolaeth bod triniaeth dŵr annigonol yn achosi problemau ansawdd dŵr yn y parth yma.

Methodd sampl a gymerwyd ym Mis Hydref ym mharth Rhiw Goch y safon manganîs a haearn (gweler yr adran *Haearn*).

Nicel

Gall nicel fod yn bresennol mewn caen ar ffitiadau tap modern. Yn 2009 cynhaliwyd cyfanswm o 661 o brofion ar gyfer nicel ac roedd pob un ond un yn cwrdd â'r safon (20µg/l). Cofnodwyd lefel o 59µg/l nicel mewn sampl o dap defnyddiwr ym mharth Sgeti/Gŵyr. Casglodd Dŵr Cymru Welsh Water mai'r ffitiad tap oedd yn gyfrifol. Roedd samplau a gymerwyd o eiddo cyfagos i gyd yn foddhaol a rhoddodd y cwmni gyngor i'r perchennog tŷ am osod ffitiadau newydd.

Nitrad a nitraid

Mae nitrad yn bodoli'n naturiol ym mhob math o ffynonellau dŵr oherwydd bod mater llysiuol yn pydru yn y pridd. Mae gwrteithwyr nitrogenaidd sy'n cael eu defnyddio ar dir ffermio â'r yn ffynhonnell sylweddol o nitrad mewn dŵr daear. Mae glaw yn golchi nitrad o'r pridd i mewn i lynnoedd, afonydd a nentydd. Gall lefelau nitrad gael eu gostwng trwy drin y dŵr neu trwy gyfuno'r dŵr hwnnw â ffynhonnell arall o ddŵr sydd â llai o nitrad ynddo. Yn 2009, roedd pob un o'r 911 prawf ar gyfer nitrad yn cwrdd â'r safon (50mg/l).

Gall nitraid gael ei ffurfio pan fo cloramin yn cael ei ddefnyddio fel diheintydd gweddilliol i gynnal yr ansawdd microbiologol oddi fewn i'r rhwydwaith dosbarthu. Rheolir ffurfiant nitrad trwy optimeiddio gofalus oddi fewn i'r broses gloramineiddio. Mae nifer o gyflenwadau yng Nghymru wedi eu cloramineiddio. Gall nitraid hefyd ffurfio mewn samplau dŵr, ar ôl iddyn nhw gael eu casglu a chyn iddyn nhw gael eu dadansoddi, yn enwedig os na chaiff y sampl ei gadw'n oer. Yn 2009, allan o 912 o brofion a gynhaliwyd ar draws y wlad roedd pob un ond un yn cwrdd â'r safon nitraid (1 DWR).

Ym Mis Hydref digwyddodd methiant nitraid ym mharth Dwyrain Ynys Môn a gyflenwir o waith Cefni trwy Gronfa Pentraeth. Gwnaeth y cwmni newidiadau yn y gronfa i gynyddu trosiant ac i wneud y mwyaf o'r broses ddiheintio yn y gwaith. Does yna ddim rhagor o fethiannau ers yr deg yma.

Plaladdwyr a chynnyrch cysylltiedig

Mae'r grŵp yma o sylweddau a elwir yn generig yn blaladdwyr, yn cynnwys nifer o gemegau organig yn amrywio o chwynladdwyr, pryfleiddiaid a ffynladdwyr. Gall ffynonellau dŵr gynnwys olion o waddolion plaladdwyr o ganlyniad i ddefnydd amaethyddol (difa pla ar gnydau) a defnydd nad yw'n amaethyddol (chwynladdwyr i reoli chwyn ar ochr y ffordd fawr ac ati). Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr asesu'r risg o ddŵr yfed o ganlyniad i'r

plaladdwyr a allai fod yn bresennol yn eu dalgylch ac yna profi ar gyfer y rhai a allai fod yn bresennol. Mae cwmnïau wedi dogfennu peryglon potensial a rhai gwir plaladdwyr trwy eu hasesiadau risg Rheoliad 27 sy'n cael eu hysbysu gan fonitro dŵr crai a nodi'r mesurau rheoli sydd yn eu lle. Pan fo plaladdwyr yn cael eu canfod i ddechrau bydd cwmnïau dŵr yn gwella'u monitro o ddŵr craidd a hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd i hyrwyddo gweithredu addas i ddiogelu ansawdd dŵr yfed.

Yn 2009, doedd dim un o'r profion yn y rhanbarth yn uwch na'r safon ar gyfer plaladdwyr. Felly hefyd roedd yna 100% o gydymffurfiaeth ar gyfer y pedwar plaladdwr gyda'r safon o 0.03µg/l (2425 o brofion). Allan o'r cyfanswm o 23,716 o brofion ar gyfer y plaladdwyr unigol hynny gyda'r safon o 0.1µg/l dim ond dau fethiant a gofnodwyd. Mae'r amgylchiadau a'r sylweddau sydd ynghlwm yn cael eu crynhoi isod.

MCPA

Yn aml darganfyddir MCPA gyda phlaladdwyr eraill. Caiff ei ddefnyddio'n bennaf i reoli chwyn mewn lawntiau, amaeth amwynderau a grawnfwydydd. Y safon yw 0.1µg/l.

Ym Mis Mehefin canfuwyd MCPA ar lefel 0.12µg/l mewn sampl o waith Capel Dewi Dŵr Cymru Welsh Water (ger Caerfyrddin). Priodolodd y cwmni'r canlyniad i ddefnydd byr dymor o'r plaladdwr yma yn y dalgylch gan bod y samplau ychwanegol i gyd yn foddhaol a does yna ddim rhagor o achosion o MCPA yn y lleoliad hwn. Mae'r Arolygiaeth yn atgoffa cwmnïau yng Nghymru o'r angen i gymryd camau rhagweithiol i ddeall y defnydd o'r math yma o blaladdwyr trwy reoli dalgylch yn well. Yn ystod 2009 penododd nifer o gwmnïau yn Lloegr swyddogion rheoli dalgylch neilltuedig sydd â'u rôl yn cefnogi asesiadau risg rheoleiddiol ac yn cynnwys cysylltu â ffermwyr, dosbarthwyr cemegolion ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r arolygiaeth yn cefnogi'r cynllun diogelwch dŵr yma'n gryf i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safon plaladdwyr ac mae'n disgwyl i gwmnïau yng Nghymru fod yr un mor rhagweithiol.

Propyzamide

Plaladdwr yw Propyzamide o hydoddedd cymedrol mewn dŵr a ddefnyddir i reoli gweiriau ymhlith coed, gwinwydd a rhai cnydau salad.

Ym Mis Ionawr darganfuwyd propyzamide ar lefel 0.133µg/l mewn sampl a gymerwyd o dap defnyddiwr ym Mhreseli. Caiff y parth yma'i chyflenwi gan Waith Preseli sydd ar hyn o bryd heb driniaeth yn ei le i ddelio â phlaladdwyr. Dyma'r flwyddyn gyntaf i Dŵr Cymru Welsh Water gynnwys y plaladdwr hwn yn eu rhaglen monitro. Roedd yna oedi wrth gofnodi'r

canlyniad yma oedd yn golygu bod ymchwiliad y cwmni hefyd wedi cael ei ohirio. Pan fo samplau'n methu mae'n bwysig bod cwmnïau'n ymateb mewn modd amserol gan y gall y defnydd o blaladdwyr fod am amser byr yn unig a bod unrhyw effaith ar y cwrs dŵr yn cael ei gyfyngu ymhen amser gan negydu'r hyder y gellir ei roi ar unrhyw samplau boddhaol dilynol.

Mae'r Arolygiaeth yn ystyried, yn dilyn y newid mewn rheoliadau, y dylai cwmnïau nawr fod yn gwneud dŵr crai yn ffocws monitro plaladdwyr gyda dim ond y plaladdwyr y gwyddys eu bod yn bresennol yn y dŵr crai yn cael ei brofi'n rheolaidd amdany'n nhw mewn pwynt cyflenwi dŵr (neu dapiau defnyddwyr).

pH (ïon Hydrogen)

Mesur o asidedd y dŵr yw pH. Lle mae dŵr yn cael ei gyflenwi o ardaloedd ar ucheldir mae'r dŵr yn naturiol yn casglu haearn ac asidau hwmig o'r priddoedd mawnaidd, gan roi dŵr sydd ychydig yn asidig gyda pH isel, a ddisgrifir yn aml fel 'dŵr meddal'. Mae'r fath ddŵr wedi cynyddu'r potensial i cyrydu pibau haearn a thrwytholchi defnydd o brif gyflenwadau gaiff ei leinio â sment. Gall asidedd hefyd gael ei effeithio pan fo dŵr yn cael ei feddaldu gan ddyfais trin mewn eiddo defnyddiwr.

Yng Nghymru, allan o gyfanswm o 2,206 prawf, aethpwyd yn uwch na'e safon ar ddau achlysur yn 2009 (1 DVW, 1 DWR).

Priodolodd ganlyniad pH isel ym Mis Rhagfyr i effaith y tywydd oer iawn ar ansawdd dŵr yn y system ddosbarthu. Mae'n hysbys bod tymheredd yn effeithio cemeg dŵr mewn rhai mathau o ddyfroedd. Cynyddodd y cwmni'r dds o galch yng ngwaith Llwyn Onn ac mae canlyniadau dilynol wedi rhoi canlyniadau boddhaol.

Nododd Dŵr Cymru Welsh Water werth pH uchel mewn sampl o barth Preseli ym Mis Gorffennaf. Mae'r cwmni wedi nodi trwy ei gynllun diogelwch dŵr ar gyfer gwaith Preseli, yr angen am driniaeth ychwanegol i ddelio â chywiro pH ac amnewid y prif gyflenwadau sydd wedi eu leinio â sment. Yn y tymor byr bydd y cwmni'n fflysio'r rhannau hynny sy'n cynnwys prif gyflenwadau wedi eu leinio â sment. Bydd yr Arolygiaeth yn monitro'n agos weithgareddau cyfredol y cwmni oddi fewn i'r parth hwn er mwyn rhwystro dychweliad y lefelau uchel o pH a welwyd yn 2009.

Mae'r Arolygiaeth wedi rhoi rhybudd yn ei le yn gofyn i'r cwmni gyflawni gwaith adnewyddu oddi fewn i raddfa amser y cytunwyd arni.

Trihalomethanau

Mae Trihalomethanau (THM) yn codi pan fo clorin yn cael ei ychwanegu i ddŵr sy'n cynnwys sylweddau organig sy'n bodoli'n naturiol. Mae prosesau trin yn cael eu hoptimeiddio gan gwmnïau dŵr i finimeiddio'u cynhyrchu. Yn 2009, allan o 660 o brofion, dim ond un oedd yn uwch na'r safon yng Nghymru (1 DWR).

Ym Mis Medi, roedd sampl o dap defnyddiwr ym mharth De Ynys Môn ychydig dros ben y safon o 100µg/l. Roedd Dŵr Cymru Welsh Water yn gallu dangos bod lefelau o trihalomethan mewn dŵr yn gadael yr holl waith sy'n bwydo'r parth yma'n gymharol isel (llai na 50µg/l) ar y pryd. Roedd yr holl samplau a gymerwyd yn y parth yn ystod y flwyddyn flaenorol yn cwrdd â'r safon. Mae parth De Ynys Môn yn derbyn blend o ddŵr o weithfeydd Mynydd Llandegai a Cwellyn. Yn ystod 2009 roedd cynlluniau gwaith pwysig ar droed i greu triniaeth ychwanegol (ceulo) fydd yn lleihau'r potensial ar gyfer ffurfio trihalomethanau. Cwblhawyd cynllun Cwellyn ym Mis Mawrth 2010. Mae gwaith pwysig ym Mynydd Llandegai yn mynd yn ei flaen a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn 2010.

Cyflenwadau dŵr preifat

Daeth rheoliadau cyflenwadau dŵr preifat newydd i rym yng Nghymru ar y 4 Chwefror 2010. Mae'r rheoliadau yma'n gweithredu'r Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed Ewropeaidd 1998 ac mae'n cymryd lle rheoliadau 1991 blaenorol. Mae canllaw ar gyfer awdurdodau lleol ar weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ar gael ar www.privatewatersupplies.gov.uk a gwefan yr Arolygiaeth (www.dwi.gov.uk) Tra yn y gorffennol roedd y dull o wella'r cyflenwadau dŵr bychain hyn yn anffurfiol ac wedi ei seilio ar gyngor ac anogaeth, mae nawr yn ddyletswydd y gellir ei orfodi i'r cyflenwadau hyn fynd trwy asesiadau risg, eu cofnodi a bod gweithredu gorfodaeth yn digwydd lle bynnag bod yn dystiolaeth bod y safonau dŵr yfed yn cael eu hesgeuluso neu fod yna risg potensial i iechyd y cyhoedd. Mae'r prif newidiadau'n cael eu crynhoi isod.

Systemau Dosbarthu Preifat

Mae'r rheoliadau newydd yn cau'r bwlch yn yr hen ddeddfwriaeth na ellid ei ddefnyddio i wella ansawdd dŵr yfed o systemau dosbarthu a weithredir yn breifat. Mae'r rheoliadau newydd nawr yn berthnasol i ddŵr sy'n *'...cael ei gyflenwi gan ymgwymerwr dŵr neu gyflenwr dŵr trwyddedig ac yna gaiff ei ddosbarthu gan berson ar wahân i ymgwymerwr dŵr neu gyflenwr dŵr trwyddedig...'*

Mae systemau dosbarthu dŵr preifat yn digwydd pan fo'r dŵr yn dod yn wreiddiol o gyflenwad dŵr preifat ond sydd wedyn yn cael ei ddsbarthu i eiddo oddi fewn i adeiladu sydd â'u deiliaid yn talu am y cyflenwad i berson ar wahân i'r cwmni cyflenwi dŵr cyhoeddus. Mae enghreifftiau nodweddiadol o ble y gellir dod o hyd i'r math yma o gyflenwad preifat yn cynnwys:

- safleoedd carafannau a gwersylloedd;
- sefydliadau milwrol;
- campysau ysbytai, ysgolion, colegau a phrifysgolion lle mae dŵr yn cael ei ddsbarthu i adeiladu gaiff eu defnyddio gan sefydliadau eraill;
- canolfannau siopa lle mae'r dŵr yn cael ei ddsbarthu i sefydliadau i sefydliadau i allfeydd siopa, swyddfeydd gweinyddol ac adeiladau cyhoeddus eraill;
- meysydd awyr/porthladdoedd/gorsafoedd trên lle mae dŵr yn cael ei ddsbarthu i sefydliadau mewn amrywiol adeiladau oddi fewn i'r safle gludiant; ac
- ystadau lle mae dŵr yn cael ei ddsbarthu i sefydliadau sy'n defnyddio adeiladau eraill megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Bydd awdurdodau lleol yn cydweithio gyda chwmnïau dŵr i nodi'r sefyllfaoedd hynny lle mae system ddsbarthu'n amodol ar reoliadau cyflenwadau dŵr preifat. Bydd cwmnïau dŵr yn cynnig canllawiau ar sefyllfaoedd a reolir gan y Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

Prif Ddyletswyddau Awdurdodau Lleol

Rhaid i awdurdodau lleol gadw a chynnal cofnodion o bob cyflenwad dŵr preifat ac anfon y rhain ymlaen bob blwyddyn i'r Arolygiaeth. Mae hyn yn sicrhau bod adroddiadau cenedlaethol yn y dyfodol am ansawdd dŵr yfed yn cynnwys gwybodaeth am yr holl gyflenwyr i ddefnyddwyr ar wahân i'r rhai hynny sy'n gwasanaethu cartref preifat sengl lle nad oes yna weithgaredd masnachol.

Rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad risg yr holl gyflenwadau preifat yn eu hardal ymhen pum mlynedd. Unwaith y byddan nhw wedi eu cwblhau rhaid cadw'r asesiadau risg yma dan arolygiaeth gyson Gweler gwefan yr Arolygiaeth (www.dwi.gov.uk) neu er mwyn cael canllaw ar gynnal asesiad risg.

Rhaid i awdurdodau lleol barhau i fonitro'r holl gyflenwadau preifat 'mawr' yn unol a'r amleddau a osodwyd yn ôl y cyfaint o ddŵr a ddefnyddir. Er hynny mae asesiad risg yn galluogi awdurdodau lleol i deilwra cwmpas t monitro ac eithrio paramedrau lle mae yna ddata dibynadwy i wirio cydymffurfiaeth â'r safon dŵr yfed. Cyflenwadau mawr yw'r rhai sy'n cyflenwi 10m³/y dydd neu fwy (yn gwasanaethu mwy na 50 o bobl). Mae angen monitro hefyd ar gyfer unrhyw gyflenwad, beth bynnag ei faint, sy'n rhan o weithgaredd masnachol neu gyhoeddus.

Mae gan awdurdodau lleol fwy o hawl i ddewis yn achos monitro cyflenwadau llai a systemau cyflenwi preifat. Ymhen pum mlynedd rhaid i bob un o'r cyflenwadau hyn gael eu profi am ychydig o baramedrau pwysig iawn (a elwir yn monitro Rheoliad 10) ac unrhyw baramedrau eraill a nodir gan yr asesiad risg.

Mae cyflenwadau preifat sy'n cyflenwi un annedd yn unig wedi eu heithrio ond rhaid i awdurdod lleol gynnal monitro os caiff gais i wneud hynny gan y preswilydd neu'r perchennog.

Rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau i ddiogelu defnyddwyr os, o ganlyniad i'w asesiad risg neu fonitro, bod perygl potensial i iechyd dynol yn cael ei ganfod. Mae'r camau hyn yn cynnwys cyflwyno rhybudd i wahardd neu gyfyngu ar y defnydd o'r cyflenwad nes bod camau adferol priodol wedi eu cymryd. Mae'n drosedd i'r person perthnasol i beidio â chydymffurfio â Rhybudd a gall yr awdurdod lleol gael y Rhybudd wedi ei orfodi os gwneir cais i'r Llys Ynadon, Mae gan y person perthnasol hefyd hawl i apelio i'r Llys Ynadon, os y teimlan nhw'u bod wedi eu tramgwyddo gan y Rhybudd.

Rhaid i awdurdodau lleol ymchwilio a phennu achos holl doriadau safonau a sicrhau bod camau adferol addas yn cael eu cymryd trwy gyflwyno Rhybudd. Gall awdurdodau lleol gynnig cyngor a thrafod gyda'r perchnogion ar union natur y gwelliannau sydd eu hangen.

Gweithredu'r rheoliadau cyflenwadau dŵr preifat – enghraifft o achos

Cafodd y Rhybudd cyntaf dan reoliadau newydd Lloegr ar gyflenwadau dŵr preifat ei gyflwyno gan Gyngor Dosbarth Sevenoaks a y 23 Mawrth 2010. Roedd y Rhybudd Rheoliad 18 yma'n nodi bod cyflenwad dŵr preifat yn gwasanaethu 76 o dai preifat a phedwar adeilad masnachol yn berygl potensial i iechyd y cyhoedd oherwydd presenoldeb organebau oedd yn dynodi halogiad ymgarthol (*E.coli*, bacteria coliform a *Clostridium perfringens*). Nododd yr asesiad risg a'r archwiliad gan yr awdurdod lleol a'r rheolwr cyflenwadau dŵr preifat bod materion yn ymwneud â strwythur a chywirdeb mewn cronfa storio. Roedd y rheoliadau newydd yn galluogi'r awdurdod lleol i ddogfennu yn y Rhybudd natur y camau sydd angen eu

cymryd i wella'r cyflenwad dŵr, megis gwneud cais am adroddiad strwythurol yn dynodi'r mesurau adferol sydd eu hangen i rwystro mewnlifiad halogyddion. Bydd y math newydd o Rybudd i'r awdurdodau lleol a defnyddwyr yw fod diffyg cydymffurfiaeth gan y person perthnasol (perchennog, gweithredwr ac ati) yn drosedd felly gall darpariaeth y Rybudd gael ei orfodi'n gymharol syml gan y llysoedd, os bydd angen.

Roedd Cyngor Dosbarth Sevenoaks wedi profi'r cyflenwad chwe gwaith y flwyddyn dan yr hen reoliadau cyflenwi yn Lloegr. Er bod rhai o'r samplau wedi rhoi canlyniadau anfoddfaol ac er bod yr awdurdod lleol yn ymwybodol bod cynnal a chadw'r cyflenwad wedi bod yn ysbeidiol ac heb fod yn ddigonol, roedd y weithdrefn rhagnodol o fonitro cymharol anaml yn golygu nad oedd yr halogiad. Roedd absenoldeb methiannau dilynol y safonau dŵr yfed yn ei gwneud yn anodd i'r awdurdod lleol i weithredu oherwydd bod y monitro'n annigonol i gadarnhau nad oedd y methiannau'n ddibwys ac yn debyg o ddigwydd eto.

Mae Cyngor Dosbarth Sevenoaks i'w canmol am gymryd mantais yn fuan o'r dull wedi ei seilio ar risg yn y rheoliadau newydd trwy asesu'r cyflenwad cyfan, yn cynnwys y rhwydwaith a dynodi ffyrdd o wella'r diffygion fydd yn diogelu ansawdd dŵr a defnyddwyr yn y dyfodol. Mae'r enghraufft achos yma'n dangos yn glir ddiffygion monitro anaml o gyflenwadau bychain, oedd wrth galon y dull o weithredu hen arddull yn achos cyflenwadau dŵr preifat. Mae'r Arolygiaeth yn edrych ymlaen at gefnodi awdurdodau lleol eraill wrth wella ansawdd dŵr yfed i bob defnyddiwr sy'n ddibynnol ar gyflenwadau bychain.

Asesiad Risg

Roedd y newidiadau i'r rheoliadau dŵr yfed yn 2007 yn gofyn i gwmnïau dŵr i asesu risg eu holl systemau cyflenwi dŵr gan ddefnyddio methodoleg wedi ei seilio ar y cynllun diogelwch dŵr a geir yng *Nghanllawiau ar gyfer Ansawdd Dŵr Yfed* Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r dull yma'n cynnwys nodi peryglon gwir a photensial trwy'r system gyflenwi dŵr o'r dalgylch i dapiau defnyddwyr. Ar gyfer pob perygl a bennir, mae'r cwmni'n pennu'r risg cysylltiedig gan ystyried unrhyw fesurau rheoli sydd eisoes yn eu lle. Mewn rhai achosion bydd t cwmni'n dod i'r casgliad bod y risg wedi ei liniaru'n ddigonol trwy'r mesurau rheoli sydd eisoes yn bodoli. Lle nad yw hyn yn wir, mae'r risg gweddilliol yn cael ei nodi fel un sydd angen mesurau lliniaru pellach a bod cynllun gweithredu'n cael ei roi yn ei le.

Roedd y broses cofnodi rheoleiddiol yn gofyn i gwmnïau i ddarparu ar gyfer yr Arolygiaeth erbyn Mis Hydref 2008 wybodaeth am y peryglon mae'r cwmni'n eu hystyried wedi eu rheoli'n ddigonol yn ogystal â manylion cynlluniau gweithredu sy'n berthnasol i'r peryglon hynny lle mae

mesurau lliniaru pellach wedi eu nodi'n angenrheidiol. Lle bo'r Arolygiaeth yn ystyried bod yna neu efallai bod yna risg o gyflenwi dŵr a fyddai'n cynnwys risg potensial i iechyd y cyhoedd gall gyflwyno Rhybudd Rheoliad 28(4) i orfodi, ac os oes angen, amrywio'r camau lliniaru a roddir gan y cwmni yn ei gynllun gweithredu. Yn nodweddiadol mae'r Rhybuddion yn nodi'r mathau canlynol o weithrediadau: cynnal a chadw, adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o reolyddion, yr amodau mae'r cyflenwad yn cael ei atal, adrodd am gynnydd a gofynion hysbysu.

Tabl 10: Achosion o asesiadau risg oddi fewn i'r rhanbarth

| Cwmni | Nifer o asesiadau risg | Nifer o Rybuddion Rheoliad 29 (4) ¹ | Beth yw pwnc y Rhybudd? | | | |
|----------------------------|------------------------|--|-------------------------|----------------------------------|--------------------------|-------------------------|
| | | | Rheoli Ffynhonnell | Newid mewn cyflenwad ffynhonnell | Cynnal a chadw dosbarthu | Gwelliannau yn y gwaith |
| Dŵr Cymru Welsh Water | 23 | 83 | 1 | 6 | 28 | 48 |
| Dee Valley Water | 7 | 0 | - | - | - | - |
| Severn Trent Water | 10 | 0 | - | - | - | - |
| Albion Water | 1 | 0 | - | - | - | - |
| SSE Water ² | 1 | 0 | - | - | - | - |
| Cymru'n gyffredinol | 42 | 83 | 1 | 6 | 28 | 48 |
| Lloegr a Chymru | 857 | 238 | 7 | 28 | 52 | 159 |

¹Mae rhai rhybuddion yn cael eu dosbarthu dan fwy nag un categori.
²Cyflwynodd SSE Water asesiad risg ond dydyn nhw ddim eto'n cyflenwi.

Mae Tabl 10 yn dangos y camau lliniaru gaiff eu cymryd gan gwmnïau yng Nghymru o ganlyniad i'w hasesiad risg o gyflenwadau dŵr yfed. Alla o gyfanswm o 42 o asesiadau risg systemau cyflenwi yng Nghymru mae'r Arolygiaeth wedi rhoi yn eu lle 83 o Rybuddion Rheoliad 28(4). Mae'r rhan fwyaf o'r rhybuddion hyn yn delio â risgiau sy'n ymwneud â thriniaeth dŵr annigonol mewn gweithfeydd a weithredir gan Dŵr Cymru Welsh Water.

Mae'r cynlluniau gweithredu a gyflwynwyd trwy'r Hysbysiadau yn creu rhan o'r rhaglen gwella ansawdd dŵr yfed cyffredinol pob cwmni dŵr.

Mae *Atodiad 4* yn crynhoi'r holl gynlluniau gwaith sy'n gyfreithiol rhwym (a elwir yn ymgymeriadau) a weithredwyd trwy'r Arolwg Pris Cyfnodol ynghyd â gwaith adferol a nodwyd yn Hysbysiad Rheoliad 28(4).

Elfen bwysig o'r prosesau asesu risg a rheoli risg sydd nawr yn eu lle yw monitro ansawdd dŵr crai. Mae pob cwmni dŵr wedi sefydlu rhaglen monitro dŵr crai rheoleiddiol ar gyfer pob un o'i bwyntiau echdynnu. Prif bwrpas y profi hwn yw i hysbysu'r rheolwyr o unrhyw rig ac i sicrhau bod pob perygl yn cael eu nodi'n gyflym ac yn cael ei rheoli'n effeithiol. Yn ystod 2009 mae cwmnïau wedi gweithio gyda'r Arolygiaeth (ac wedi cynnal astudiaethau peilot) er mwyn hwyluso yn y dyfodol, drawsgludo data am ansawdd dŵr crai i reolyddion. Mae Tabl 11 yn crynhoi sgôp a graddfa data monitro ansawdd dŵr a gesglir gan gwmnïau dŵr yng Nghymru yn 2009. Mae'r wybodaeth yma sy'n eiddo i'r cwmnïau dŵr yn cael ei rannu gan yr Arolygiaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae'n cyfrannu at y monitro cyffredinol o ansawdd dŵr amgylcheddol sydd ei angen yn ôl deddfau Ewropeaidd.

Tabl 11: Y nifer o brofion wnaed mewn pwyntiau echdynnu yn 2009

| Natur y paramedr | Cwmni | | | |
|--------------------------------------|------------------|-----------------------|--------------|---------------|
| | Dee Valley Water | Dŵr Cymru Welsh Water | Severn Trent | Cyfanswm |
| Nodweddion naturiol | 320 | 8,223 | 627 | 9,170 |
| Dangosyddion ansawdd dŵr cyffredinol | 320 | 20,373 | 318 | 21,011 |
| Dangosyddion microbiolegol | 160 | 9,325 | 324 | 9,809 |
| Plaladdwyr | 628 | 24,698 | 0 | 25,326 |
| Cyfanswm y profion | 1,669 | 63,017 | 1,463 | 66,149 |
| Y nifer o bwyntiau echdynnu | 4 | 73 | 5 | 82 |

Asesiad risg dalgylch – achos enghreifftiol

Elfen bwysig o fethodoleg y cynllun y diogelwch dŵr sy'n sail i asesiadau risg rheoleiddiol yw deialog rhwng y cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid eraill i nodi peryglon a rheoli risgiau oddi fewn i ddalgylchoedd cyflenwadau dŵr penodol. Enghraifft o'r fath waith yw ymdriniaeth Dŵr Cymru Welsh Water o'r mater waddodi sy'n digwydd yn nalgylch Cronfa Cantref ger Merthyr Tydfil. Roedd methodoleg cynllun diogelwch dŵr y cwmni'n dynodi mai'r ddwy lednant sy'n bwydo'r gronfa oedd yn gyfrifol am ddŵr cymylog ac â lliw dwfn yn dilyn glaw trwm. Ym Mis Mawrth 2010 trefnodd y cwmni weithdy gyda chynrychiolwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Gymdeithas Cominwyr Lleol, tenantiaid fferm, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Coed Cymru, ADAS, Commons Vision a Llywodraeth y Cynulliad. Yn y gweithdy a dderbyniwyd yn gadarnhaol gan yr holl randdeiliaid, trafodwyd atebion rheoli posibl ar gyfer y dyfodol a lluniwyd grŵp llywio i fynd â gwaith ymlaen i rychwantu astudiaeth dalgylch. Caiff yr Arolygiaeth ei annog i nodi bod rheoleiddio ar gyfer asesu risg a rheoli risg yn 2007 yn profi i fod yn gymhelliad effeithiol i gwmnïau dŵr i weithredu'r math yma o ymdriniaeth cydweithiol rhyngweithiol ac ataliol o ansawdd dŵr.

Digwyddiadau ansawdd dŵr yfed

O'r 1 Ionawr 2009, yn unol ag Egwyddorion Hampton yng *Nghôd Cydymffurfio'r Rheolyddion*, diweddarodd yr Arolygiaeth ei ymdriniaeth o asesiadau o achosion o ansawdd dŵr. Mae'r ymdriniaeth yma sydd wedi ei seilio ar risg yn galluogi'r Arolygiaeth i dargedu adnoddau lle y gallan nhw fod yn fwyaf effeithiol yn nhermau cynnal hyder y cyhoedd mewn ansawdd dŵr yfed. Wedi ei seilio ar y wybodaeth rhagarweiniol a ddarparwyd gan y cwmni, (sdroddiad tri diwrnod) mae pob digwyddiad yn cael ei ddsbarthu i un o'r pum categori canlynol:

Ddim yn arwyddocaol (categori 1): dim angen gwybodaeth bellach ar yr archwiliwr er mwyn asesu'r digwyddiad.

Dibwys (categori 2): dim angen gwybodaeth bellach ar yr archwiliwr er mwyn asesu'r digwyddiad.

Arwyddocaol (categori 3): angen adroddiad llawn gan y cwmni er mwyn galluogi'r archwiliwr i asesu'r digwyddiad.

Difrifol (categori 4): yn ogystal ag adroddiad llawn gan y cwmni, mae'r asesiad yn gofyn gweithredu gan fwy nag un archwiliwr.

Mawr (categori 5): yn ogystal ag adroddiad llawn gan y cwmni, mae'r asesiad yn gofyn gweithredu gan archwilwyr hŷn.

Yn 2009 cafodd cwmnïau yng Nghymru eu hysbysu gan yr Arolygiaeth o 50 digwyddiad. Mae Tabl 12 yn dangos sut y dosbarthwyd y digwyddiadau hyn.

Tabl 12: Digwyddiadau ansawdd dŵr yng Nghymru 2009

| Natur y digwyddiad | Categori risg asesiad (ADY) | | | | |
|--------------------------------|-----------------------------|------------|------------|----------|----------|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Aer yn y dŵr | - | - | - | - | - |
| Cemegol | - | 3 | - | - | - |
| Dŵr afliwiedig | - | 2 | 7 | 1 | - |
| Triniaeth annigonol | - | - | 2 | - | - |
| Colli cyflenwad/ pwysedd gwael | - | 1 | 2 | - | - |
| Microbiolegol | 2 | 6 | 4 | - | - |
| Blas / Arogl | - | 3 | - | - | - |
| Gofid am iechyd | - | - | - | - | - |
| Gofid cyhoeddus | 2 | 6 | 3 | 1 | 1 |
| Arall | - | 2 | 2 | - | - |
| Cymru | 4 | 23 | 20 | 2 | 1 |
| Lloegr a Chymru | 63 | 213 | 141 | 4 | 1 |

Categori 1 = Ddim yn arwyddocaol, Categori 2 = Dibwys, Categori 3 = Arwyddocaol, Categori 4 = Difrifol, Categori 5 = Mwyaf difrifol.

Mae crynodeb o natur, achos a hyd pob digwyddiad gaiff eu categoreiddio fel Arwyddocaol, Digwyddiad neu Mawr eu gweld yn *Atodiad 3* ynghyd â manylion darganfyddiadau'r Arolygiaeth. Roedd amseriad y rhan fwyaf o'r digwyddiadau yn gymharol fyr a chymrodd y cwmni gamai i hysbysu a diogelu defnyddwyr gan hysbysu rhanddeiliaid eraill fel oedd yn addas.

Roedd bron hanner (23 o'r 50) o'r digwyddiadau yng Nghymru yn ystod 2009 o'r math oedd angen archwiliad manwl gan archwiliwr ac roedd yna dri digwyddiad oedd yn ddigon difrifol i warantu archwiliad o bwys gan yr Arolygiaeth. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol â'r rhanbarthau yn Lloegr yn nhermau faint o ymdrech archwilwyr gaiff ei dreulio'r archwilio digwyddiadau.

Mae tri o ddigwyddiadau 2009 yn cael eu crynhoi isod oherwydd y pwyntiau dysgu gaiff eu hamlygu gan ddarganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth.

Achos o golli cyflenwad a dŵr afliwiedig, De Cymru:

- Mae gwaith Maerdy, gaiff ei redeg gan Dŵr Cymru Welsh Water wedi ei leoli ar ben Cwm Rhondda Fach ac mae'n cyflenwi tua 22,400o ddefnyddwyr yn Maerdy, Glynrhedynog, Tylorstown a'r ardal gyfagos. Mae'r dŵr crai'n disgyrchu i'r gwaith o ddwy gronfa ddŵr wyneb, Lluest Wen a Castell. Yn dilyn cyfnod o dywydd oer iawn digwyddodd aflwiad sylweddol o'r cyflenwad dŵr crai oherwydd y rhewi a achosodd sgwrio'r gwaddodion cyfoethog mewn manganîs oddi fewn i'r adrannau uwchben y ddaear o'r prif gyflenwad dŵr crai. Achosodd hyn broblemau gweithredu gyda'r driniaeth a arweiniodd yn y pen draw i gau'r gwaith a cholli cyflenwadau dŵr yn y rhwydwaith. Yn dilyn cychwyn y gwaith roedd yna gyfres o brif gyflenwadau wedi byrstio gydag amhariad o'r herwydd i'r rhwydwaith ac afliwio. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i amnewid rhannau o'r system dŵr crai ac wedi hynny i lanhau'r system gyflenwi dŵr crai i gyd.

Roedd yr Arolygiaeth yn feirniadol iawn o'r cwmni, yn fwyaf penodol am y diffyg rhaglen lanhau rheolaidd ar gyfer y prif gyflenwad o ddŵr crai. Roedd y diffyg cynnal a chadw yma er gwaetha'r ffaith fod gwaddodion manganîs yn berygl hysbys a gofnodwyd yn yr asesiad risg rheoleiddiol. Argymhellodd yr Arolygiaeth hefyd adolygiad o osodiadau'r larwm a gweithredoedd dilynol mewn ymateb i fonitro dŵr crai i sicrhau rhybuddio cynnar am newidiadau potensial mewn ansawdd dŵr crai. Mae'r Arolygiaeth yn parhau'n bryderus am y sefyllfa yn y safle hon a ddioddefodd ddigwyddiad tebyg arall yn gynnar yn 2010. mae'r Arolygiaeth yn derbyn y bydd amodau tywydd garw'n codi o bryd i'w gilydd ond mae'r Arolygiaeth yn disgwyl cwmnïau i gynllunio ar gyfer hyn a blaenoriaethu mesurau lliniaru. Achosodd y digwyddiad hwn amhariad sylweddol, maith ac eang i nifer fawr o ddefnyddwyr a achosodd, o reidrwydd, ofid gwleidyddol a chreodd ddiddordeb yn y wasg lleol.

Achos o gamgysylltu Oxwich, ger Abertawe:

- Cafodd cysylltiad cyflenwi dŵr newydd ei osod gan gontractwr Dŵr Cymru Welsh Water i eiddo cyfagos i Coastlands, Oxwich ger Abertawe. Wedi hyn sylwodd plymwr oedd yn gweithio yn yr eiddo ar ran y perchennog arogl carthffosiaeth yn y cyflenwad dŵr a datgelodd ymchwiliadau gan y cwmni a'i gontractwr bod yr eiddo wedi cael ei gysylltu mewn camgymeriad â'r garthffos leol. Cafodd cysylltiad newydd ei osod ar y prif gyflenwad a chafodd yr holl bibau, y darnau gosod a gosodiadau oddi fewn i'r eiddo eu hamnewid a'u diheintio. Darganfu'r archwiliad wallau yng nghofnodion y cwmni o brif gyflenwadau dŵr a charthffosydd ar gyfer

yr ardal leol. Yn ogystal â diweddarau'r cofnodion yma mae'r cwmni hefyd wedi gwneud gwelliannau i'w weithdrefnau ar gyfer cysylltiadau prif gyflenwadau dŵr, yn benodol profi ar ôl gosod cysylltiadau newydd a'r angen i ofyn am gyngor pan fo'r darganfyddiadau ar y safle'n wahanol i'r rhai ar y ceisiadau swyddi neu gynlluniau.

Yn 2009, cydnabu Dŵr Cymru Welsh Water y drosedd o gyflenwi dŵr oedd yn anaddas i'w yfed gan bobl a chafodd ei rybuddio gan yr Arolygiaeth. Mae'r digwyddiad yma'n amlygu'r canlyniadau difrifol a all godi pan fo cwmni'n methu â chadw cofnodion cywir o'u hasedau a phan nad yw'n cynnal gwiriadau digonol yn dilyn gosod cysylltiadau newydd. Roedd yn ffodus iawn bod y nam wedi ei ganfod gan blymwr effro a gyflogwyd gan y perchennog cyn i'r eiddo gael ei feddiannu.

Colli gwaith trin, amrywiol leoliadau:

- Roedd yna nifer o ddigwyddiadau yng Nghymru yn ystod 2009 oedd yn debyg eu natur ac achos (gweler *Atodiad 3*). Roedd y problemau wedi eu canolbwyntio ar golli rheolaeth ar brosesau trin dŵr, ceulo yn bennaf, a achosodd gymylogrwydd uwch a darganfod oocystau *Cryptosporidiwm*. Canfuwyd nifer o nodweddion cyffredin yn asesiad yr Arolygiaeth o'r digwyddiadau yma; triniaeth annigonol mewn perthynas â'r amrywiaeth hysbys yn y dŵr crai, oedi mewn ymateb i ansawdd dŵr ar larymau llinell a gweithredu gohiriedig neu annigonol gan y cwmni mewn ymateb i newidiadau mewn ansawdd dŵr crai. Yn dilyn ystyriaeth o weithredu gorfodi gan yr Arolygiaeth, mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cymryd camau i wella'r trin dŵr yn nifer o'i weithiau. Mae'r Arolygiaeth wedi gosod yn eu lle gyfuniad o rybuddion statudol a chynlluniau gwaith ac wedi talu ymweliadau i safleoedd er mwyn gweld y gwelliannau gaiff eu gwneud gan y cwmni yn ymarferol. Mae'r archwiliad agos yma o gyflenwi gwelliannau gan y cwmni'n parhau. Gellir gweld manylion y rhybuddion yn Nhabl 10 ac mae'r archwiliadau'n cael eu cofnodi isod.

Does dim troseddau dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan yr Arolygiaeth mewn cysylltiad ag unrhyw ddigwyddiadau yn y rhanbarth yn 2009.

Gweithgaredd archwilio technegol

Mae'r Arolygiaeth wedi gweithredu ymdriniaeth wedi ei seilio ar risg o archwilio technegol ers 2005. Yn unol ag egwyddorion rheoli gwell, does dim archwiliad technegol yn cael ei gynnal heb reswm ac mae'r rhai sydd yn cael eu cynnal yn cael eu targedu ar sail asesiad risg.

Mae offer yr Arolygiaeth i gynhyrchu'r rhaglen archwilio technegol yn edrych ar gydrannau critigol rheoli diogel cyflenwadau dŵr yfed, yn cynnwys gwybodaeth am fonitro ansawdd dŵr, asesiadau digwyddiadau, archwiliadau blaenorol, cwynion defnyddwyr ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Trwy drefnu asedau, gweithdrefnau ac arferion yr holl gwmnïau dŵr perthnasol mewn trefn fel hyn, gall arolygwyr flaenoriaethu a chanolbwyntio'u gwaith archwilio technegol lle bydd o'r budd mwyaf.

Mae gwybodaeth am ganfyddiadau allweddol yr archwiliadau technegol a gynhaliwyd yn ystod 2009 yng Nghymru wedi ei osod yn Tabl 13.

Tabl 13: Crynodeb o archwiliadau technegol yr Arolygiaeth yn y rhanbarth

| Enw'r safle | Testun yr archwiliad | Prif ganfyddiadau'r archwiliad |
|------------------------------|---|--|
| Dŵr Cymru Welsh Water | | |
| Gwaith Mynydd Llandegai | <i>Cryptosporidiwm</i> | <p>Yn gyffredinol foddhaol Gwnaed argymhellion ynglŷn â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu risg ar y safle a rheoli dalgylch. • Yr angen am adolygiad rheolaidd o brofi ar y safle a data labordy a sbardunau priodol ar gyfer gweithredu ychwanegol. • Rheoli cronfa dŵr crai Ffynnon Llugwy. • Cadw dogfennaeth safle'n gyfredol. • Trin dŵr golchi prosesau. • Trefniadau diffodd mewn argyfwng. • Gwirio cydymffurfiaeth gyda gofynion rheoleiddiol ar gyfer diheintio yn cynnwys rheoli lefelau o gymylogrwydd cyn diheintio. |
| Gwaith Alwen | Proses diheintio'n dilyn methiant microbiolegol | <p>Anfoddhaol Gwnaed argymhellion ynglŷn â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Awdurdodi a dogfennu newidiadau mewn prosesau critigol. • Yr angen am arolwg rheolaidd o brofion ar y safle a data labordy a sbardunau priodol ar gyfer gweithredu ychwanegol, i hysbysu perfformiad y broses a'i hoptimeiddio. • Trefniadau diheintio ar y safle yn cynnwys dilysiad o'r trefniadau diheintio cyfredol a chyflawni'r Amser cyswllt isaf angenrheidiol (Rhybudd Rheoliad 28(4) a osodwyd gan yr Arolygiaeth). • Cydbwysedd mas/llif o'r mesur o polyelectrolyte a ddefnyddiwyd i liniaru'r risg o fynd yn groes i safonau ansawdd dŵr. |


| Enw'r safle | Testun yr archwiliad | Prif ganfyddiadau'r archwiliad |
|--|--|---|
| Dŵr Cymru Welsh Water | | |
| Gwaith Llyswen | Digwyddiad yn ymwneud ag ansawdd dŵr a phroblemau gyda'r broses geulo a'r gwaith dosio calch | Yn gyffredinol foddhaol Gwnaed argymhellion ynglŷn â: <ul style="list-style-type: none"> Yr angen i adolygu gweithdrefnau'r safle ar gyfer delio â chyfnodau o ddirywiad mewn ansawdd dŵr crai. Penderfynu ar a dilysu gwerthoedd Amser cyswllt i gynnwys trefniadau yn eu lle ar gyfer cyflyrau llif pan na ellir cwrdd â'r Amser cyswllt. |
| Gwaith Broomy Hill | Ailadrodd digwyddiad yn ymwneud ag ansawdd dŵr | Yn gyffredinol foddhaol Gwnaed argymhellion ynglŷn â chadw cynllun y safle yn gyfredol. |
| Gwaith Capel Dewi | Nifer o ddigwyddiadau'n ymwneud ag ansawdd dŵr | Yn gyffredinol foddhaol Gwnaed argymhellion ynglŷn â: <ul style="list-style-type: none"> Y system reoli sy'n ei lle ar gyfer y broses geulo. Yr angen am adolygiad o drefniadau monitro cymylogrwydd ar ôl hidlo a chyn diheintio (yn enwedig ar ôl adlifo'r hidlydd). Trefniadau diheintio'r safle. Trefniadau samplu rheoliadol. |
| Gwaith Pendine | Nifer o ddigwyddiadau'n ymwneud ag ansawdd dŵr | Yn gyffredinol foddhaol Gwnaed argymhellion ynglŷn â darparu gwybodaeth yn arddangos y gellid cynnal yr Amser cyswllt angenrheidiol yn y gwaith bob amser. |
| Gwaith Llwyn Onn | Nifer o ddigwyddiadau'n ymwneud ag ansawdd dŵr | Yn gyffredinol foddhaol |
| Polisi ac Arfer y Cwmni ar gyfer cynnal a chadw'r gronfa wasanaeth | Nifer o fethiannau microbiolegol. | Yn gyffredinol foddhaol Gwnaed argymhellion ynglŷn â: <ul style="list-style-type: none"> Datblygu polisi ar draws y cwmni ar gyflenwi a pherchnogaeth o'r rhaglen glanhau ac archwilio. Mecanweithiau adolygu ffurfiol ar gyfer cyfarwyddiadau rhedeg safle'r gronfa. |

Hyder cyhoeddus mewn ansawdd dŵr yfed

Pan fo gan defnyddwyr gwestiwn neu ofid ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed eu pwynt cyswllt cyntaf yw'r cwmni dŵr. Mae'r cwmnïau i gyd yn cofnodi'r cysylltau yma i gyd gan ddefnyddio diffiniadau a gytunwyd gyda'r Arolygiaeth.

Yn 2009 parhaodd y nifer o ddefnyddwyr Cymru wnaeth roi gwybod am eu pryderon ynglŷn ag ansawdd eu dŵr Tap (golwg, blas ac arogl, neu salwch) i ostwng ac roedd y sefyllfa well hon yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn nifer o ddefnyddwyr a roddodd wybod am y dŵr brown, du neu oren neu ddŵr gwyn a achoswyd gan aer a gludir. Caiff hyn ei ddangos yn Ffigwr 14.

Ffigwr 14: Y nifer o gysylltau defnyddwyr yn lleisio pryder 2006–2009



Dŵr afliwiedig – du, brown neu oren


Yn 2009 roedd y cyfradd cysylltu fesul 1,000 o'r boblogaeth o ddefnyddwyr Cymreig oedd yn rhoi gwybod am ddŵr afliwiedig 2.6 i lawr o 3.8 yn 2006. Er hynny, er gwaetha'r gwelliant, mae Cymru'n dal â'r raddfa cysylltu uchaf ar gyfer y math yma o broblem, o'i gymharu â rhanbarthau Lloegr lle roedd yr uchaf yn 2009 yn 3.1 fesul 1,000 yn y Rhanbarth Gorllewinol.

O ganlyniad i raglen fuddsoddi strategol mewn adnewyddu prif gyflenwadau dŵr (gweler yr adran ar Haeearn) mae yna 30% yn llai o gysylltau oddi wrth defnyddwyr Dŵr Cymru Welsh Water ynglŷn â dŵr afliwiedig o'i gymharu â 2006. Er bod niferoedd y cysylltau ar gyfer Dee Valley Water yn fach o'i gymharu, eleni mae wedi dangos arwyddion o wrthdroi yn yr hyn sydd wedi bod yn dueddiad cynyddol rhwng 2006 a


2008. mae'r nifer o gysylltau defnyddwyr ynglŷn ag afliwio ar gyfer yr ardal a gyflenwir gan Severn Trent Water wedi parhau i fod yn fach iawn.

Mae Ffigurau 15 a 16 yn dangos y raddfa o gysylltiadau defnyddwyr ynglŷn â dŵr du, brown neu oren yn 2006 a 2009.

Ffigur 15: Y raddfa o gysylltiadau defnyddwyr fesul 1,000 o'r boblogaeth yn nodi dŵr du, brown neu oren yn 2006



Ffigwr 16: Y raddfa o gysylltau defnyddwyr fesul 1,000 ynglŷn â dŵr du, neu oren yn 2009



Mae'r mapiau'n dangos y gostyngiad yn y nifer o gysylltiadau yn ac o gwmpas Aberteifi, Caerfyrddin a De Ddwyrain Cymru'n gyffredinol. Mae nifer uwch na'r cyfartaledd o gysylltiadau am afliwiadau'n dal i fod yn ardaloedd canol De Cymru a'r Gogledd.

Dŵr gwyn – aer

Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â'u cwmnïau dŵr pan fyddan nhw'n derbyn dŵr sy'n ymddangos yn wyn oherwydd aer a gludir. Er mai hwn yw'r ail gategori uchaf o gysylltau yng Nghymru mae'r sefyllfa'n ymddangos fel petai'n gwella gyda gostyngiad yn y nifer ers 2006 o dros 2,500 i'n agos i 1,800 o gysylltau. Unwaith eto mae'r rhan fwyaf o'r cysylltau oddi wrth

cwsmeriaid Dŵr Cymru Welsh Water ac mae cyfraniad cwmnïau eraill i'r ffigurau hyn yn fach.

Cwynion i'r Arolygiaeth

Pan fo ymateb cwmni i gyswllt oddi wrth gwmni am ansawdd dŵr yfed yn methu â chynnig y sicrwydd neu welliant angenrheidiol yna gall y defnyddiwr gysylltu â'r Arolygiaeth i gael cyngor. Yn 2009, roedd yna chwe defnyddiwr oedd yn ddigon anfodlon ag ymateb cyntaf y cwmni nes iddyn nhw godi'r mater ymhellach gyda'r Arolygiaeth ac mae'r rhesymau dros y cwynion hyn i'r Arolygiaeth i'w gweld yn Nhabl 17.

Tabl 17: Cysylltau oddi wrth ddefnyddwyr yng Nghymru a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

| Categori ¹ | Nifer y cysylltau |
|---|-------------------|
| Ymddangosiad | 4 |
| Blas ac arogl | 2 |
| Adroddiad am salwch | 0 |
| Pryder am ansawdd dŵr | 0 |
| Cyfanswm nifer y cysylltau â'r ADY oddi wrth ddefnyddwyr gan y cwmni ADY (6) | |
| ¹ Mae'r categorïau fel y'u diffinnir yn Llythyr Gwybodaeth 1/2006. | |

Achos enghreifftiol

Ym Mis Ebrill, cysylltodd defnyddiwr oedd yn byw yn Sir Benfro, Dyfed, â'r Arolygiaeth i roi gwybod na allai yfed ei dŵr tap. Roedd wedi derbyn dŵr gwyn sawl gwaith dros tair blynedd ac roedd hyn yn ei hachosi i ofni am ddiogelwch ei dŵr tap. Mae dŵr gwyn yn ymddangos o ganlyniad i aer a gludir ac nid oes niwed ynddo, a gellir ei ganfod trwy wirio i weld a yw'r cymyledd yn clirio o waelod i dop y gwydr pan fo'r dŵr yn cael ei adael i sefyll. Er hynny gellir atal y broblem a dylai cwmnïau wneud pob ymdrech i leihau'r nifer o adegau mae'n digwydd oherwydd ei fod yn peri gofid i ddefnyddwyr pan fo'r achos yn para heb ei egluro.

Yn yr achos hwn, sefydlodd yr Arolygiaeth bod Dŵr Cymru Welsh Water yn ymwybodol o'r broblem oedd yn ymwneud â thoriadau yn y cyflenwad pŵer yn effeithio ar orsaf bwmpio gyfagos. Cymrodd y cwmni agwedd raddol i ddatrys y broblem dros nifer o wythnosau, yn cynnwys fflysio pan oedd y problemau'n ailgodi. Er hynny, cysylltodd y defnyddiwr â'r Arolygiaeth unwaith eto pan drodd ei dŵr tap yn afliwiedig (brown) a phan oedd Dŵr Cymru Welsh Water am osod falf yn ei gardd o flaen y tŷ fel rhan o'r gweithredu adferol.

Er i'r cwmni gynnal cyfathrebiad â'r defnyddiwr trwy gydol y cyfnod, doedd hi ddim wedi ei sicrhau'n llawn ac chafodd ei gofidiau gwreiddiol eu cynyddu wrth i gontractwyr y cwmni beidio â rhoi eglurhad llawn o'r gwaith oedd yn cael ei wneud gerllaw. Mae'r achos hwn yn dangos yr effaith anffafriol mae awyriad yn ei gael ar hyder y cyhoedd mewn dŵr yfed. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i gwmnïau dŵr i weithredu'n gyflym i ddatrys achosion o ddŵr gwyn a chymryd gofal arbennig i sicrhau bod yr holl gyfathrebu gyda defnyddwyr yn drylwyr, yn gysurion ac yn gyson.

Am fwy o wybodaeth am y Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010 (Cymru), neu'r paramedrau microbiolegol a chemegol a ymdrinnir â nhw yn y rheoliadau ewch i wefan ADY: (www.dwi.gov.uk)

Os ydych chi angen gwybodaeth mwy penodol na'r hyn a geir ar ein gwefan, cysylltwch a ni ar linell ymholiadau ADY: 030 0068 6400.

Atodiad 1

Ffynonellau eraill o wybodaeth

Mae'r cyhoeddiad Dŵr yfed 2009 y cynnwys adroddiadau rhanbarthol ar gyfer Lloegr ac adroddiad ar gyfer Cymru. Mae yna chwe adroddiad ar gyfer Lloegr (Central, Eastern, Northern, Southern, Thames and Western) ac un ar gyfer Cymru (mewn dwy iaith). Mae pob adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth o 2009 dan y penawdau canlynol:

- Cyflwyniad i'r adroddiad.
- Trefniadau cyflenwadau dŵr.
- Profi ansawdd dŵr yfed.
- Canlyniadau ansawdd dŵr yfed.
- Cyflenwadau dŵr preifat.
- Aseidiadau risg.
- Digwyddiadau ansawdd dŵr yfed.
- Gweithgaredd archwiliad technegol.
- Hyder cyhoeddus mewn ansawdd dŵr yfed.

Mae'r adroddiadau a chynnwys arall yn cael ei gyhoeddi ar wefan ADY (www.dwi.gov.uk).

Cynnwys y CD

Mae'r CD a gyflenwir gyda'r adroddiad printiedig yn dal yr holl gynnwys uchod ac hefyd mae'n cynnwys:

Tablau cyfeirio cwmnïau dŵr

Mae'r rhain yn crynhoi'r holl ganlyniadau monitro cwmnïau dŵr yn 2009. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth ar:

- yr hyn a brofwyd;
- sawl prawf a gynhaliwyd;
- rhychwant canlyniad y profi; a
- sawl prawf fethodd â chwrdd â'r safonau.

Digwyddiadau dŵr yfed arwyddocaol yn Lloegr a Chymru 2009

I hyrwyddo addysg gaiff ei rannu, mae'r Arolygiaeth wedi llunio rhestr o'r holl ddigwyddiadau gafwyd yn 2009 sy'n dangos natur ac achos pob digwyddiad, y prif gamau gymerwyd gan y cwmni a chanfyddiadau aseidiadau'r archwilwyr. Mae cynnwys perthnasol o'r rhestr gyffredinol hyn yn cael ei gynnwys fel atodiad i bob adroddiad rhanbarthol.

Atodiad 2

Rhestr termau a disgrifiad o safonau

Bydd y diffiniadau hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r Adroddiad lle mae termau technegol wedi eu defnyddio

| | |
|-----------------------------|---|
| µg/l | microgram y litr (un rhan o fil o gram y litr). |
| 1,2-Dicholoroethane | toddydd all gael ei ddarganfod mewn dŵr daear agos at safleoedd diwydiannol. Lle bo'n angenrheidiol, defnyddir triniaeth arbennig i'w waredu. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 3µg/l yn cael ei weithredu. |
| Acrylamide | safon Ewropeaidd wedi ei seilio ar iechyd. Ni chanfyddir monomer mewn dŵr yfed fel rheol. Caiff ei gynhyrchu wrth wneud polyacrylamidau a ddefnyddir o dro i dro wrth drin dŵr. Cyfyngir ei fodolaeth mewn dŵr yfed trwy reoli manylion y cynnyrch. Y safon yw 0.1µg/l. |
| Alcali | toddiad sy'n cynnwys gormodedd o ïonau hydroxyl rhydd, gyda pH uwch na saith. |
| Alwminiwm | yn ymddangos yn naturiol mewn rhai ffynonellau dŵr. Defnyddir triniaeth arbennig i'w waredu (ceulad a hidlad). Gall alwminiwm sylffad a chlorid polyalwminiwm gael eu defnyddio fel cemegau trin dŵr mewn rhai gweithfeydd trin dŵr. Y safon Cenedlaethol yw 200µg/l. |
| Amoniwm | halennau sy'n bresennol ar lefelau isel iawn yn naturiol yn y rhan fwyaf o ffynonellau dŵr. Gall ddynodi difwyniant o arwyddocâd glanweithiol a gallant ymyrryd â'r prosesau diheintio. Paramedr dynodol gydag amcan werth o 0.5mg/l. |
| Amser cyflenwi | y foment pan fo'r dŵr yn pasio o bibellau'r cwmni dŵr i bibellau'r defnyddiwr. |
| Antimoni | anaml iawn y canfyddir hwn mewn dŵr yfed. Gall olion bychan iawn ohono ymddangos mewn dŵr o ganlyniad i ffitiadau tap a sodr pres. Y safon Ewropeaidd wedi ei seilio ar iechyd yw 5µg/l. |
| Archwiliad technegol | ffordd o wirio bod cwmnïau dŵr yn cydymffurfio gyda'u goblygiadau statudol. |

| | |
|--|--|
| Arogl | gall godi o ganlyniad i'r prosesau naturiol mewn dŵr ar yr wyneb yn enwedig rhwng y gwanwyn hwyr a chychwyn yr hydref. Bydd trin y dŵr gyda carbon egnïoledig neu osôn yn ffordd o waredu'r sylweddau naturiol yma. Mae'r safon yn berthnasol i asesiadau panel o bobl sy'n asesu samplau yn y labordy. |
| Arolwg Rheolaidd | proses y rheolydd economaidd o bennu prisiau dŵr. |
| Arolygiaeth | Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. |
| Arsenig | yn ymddangos yn naturiol mewn nifer bychan o ffynonellau dŵr daear. Mae'n rhaid defnyddio triniaethau penodol i'w waredu. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l yn cael ei weithredu. |
| Asesiad cydymffurfiaeth | cymhariaeth a wneir gan yr Arolygiaeth o ddata a gesglir gan gwmnïau dŵr yn erbyn safonau ac anghenion rheolyddol eraill. |
| Asesiad cyn ac wedi adnewyddiad | rhaglen asesu cyn ac ar ôl adnewyddiad prif bibellau dŵr er mwyn dangos gwerth y gwaith a'r gwelliannau a wnaed yn sgil yr adnewyddiad. |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am gynnal a gwella ansawdd dŵr ffres, dŵr môr, dŵr ar yr wyneb a dŵr tanddaearol yng Nghymru a Lloegr. |
| Bacteria coliform | i'w canfod yn yr amgylchedd, yn aml o ganlyniad i weithgarwch dynol neu anifail ond bydd rhai yn tyfu ar blanhigion. Os yn bresennol yn y cyflenwad dŵr yfed, rhaid archwilio 'r system gyflenwi. Y safon yw 0 ymhob 100ml. |
| Bensen | yn bresennol mewn petrol. Nid yw'n bresennol mewn dŵr yfed ond mae modd iddo dreiddio drwy bibellau cyflenwi plastig tanddaearol os oes petrol wedi gollwng yn yr ardal. Cofnodwyd bod ambell ddŵr potel a diod meddal sy'n cynnwys sodiwm benzoate yn cynnwys bensen. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1µg/l yn cael ei weithredu. |
| Benzo(a)pyrene (BaP) | un o grŵp o gompowndiau a elwir yn hydrocarbonau aromatig polysyclig (HAP). Mae'n medru ymddangos mewn dŵr o ganlyniad i ddirywiad coltar a ddefnyddiwyd flynyddoedd yn ôl i leinio pibellau dŵr. O ganlyniad i lawer o waith ailosod prif bibellau, anaml iawn y canfyddir y sylwedd yma mewn dŵr bellach. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.01µg/l yn cael ei weithredu. |

| | |
|--|---|
| Blas | gall godi o ganlyniad i'r prosesau naturiol mewn dŵr ar yr wyneb yn enwedig rhwng y gwanwyn hwyr a chychwyn yr hydref. Bydd trin y dŵr gyda carbon egnïoledig neu osôn yn ffordd o waredu'r sylweddau naturiol yma. Mae'r safon yn berthnasol i asesiadau panel o bobl sy'n asesu samplau yn y labordy. |
| Boron | daw boron mewn ffynonellau dŵr ar yr wyneb o wastraff diwydiannol neu o lanhawyr mewn carthffrydiau carthffosiaeth wedi ei drin. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr yfed yn beryglus i iechyd y cyhoedd. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1mg/l yn cael ei weithredu. |
| Bromad | gall gael ei ffurfio yn ystod y broses o ddiheintio dŵr yfed trwy gyfrwng adwaith bromad naturiol gydag ocsidyddion cryf (osôn fel arfer). Mae'n bosib ei fod yn cael ei greu wrth gynhyrchu diheintydd sodiwm hypochlorite. Fel eithriad, gall dŵr daear o dan safle diwydiannol gael ei ddifwyno gan fromad. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l yn cael ei weithredu. |
| Cadmiwm | anaml iawn y canfyddir hwn mewn dŵr yfed. Os canfyddir olion o gwbl, mae'r rhain fel arfer o ganlyniad i ymdoddiad amhureddau o ffitiadau plymwaith. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 5g/l yn cael ei weithredu. |
| Canran cydymffurfiaeth parthol cymedrig | mesur o gydymffurfiaeth gyda safonau dŵr yfed gyflwynwyd gan yr Arolygiaeth yn 2004. |
| Carbon Egnïoledig Gronynnog | dull o hidlo arsugol a ddefnyddir i waredu olion compowndiau organig o ddŵr. |
| Carbon egnïoledig gronynnol (PAC) | caiff carbon egnïoledig gronynnol ei ddefnyddio mewn prosesau trin i gael gwared â llygryddion. |
| Carbon Organig Llawn | cynrychioli cyfanswm y mater organig mewn dŵr. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth 'dim newid annormal'. |
| Ceulad | proses a ddefnyddir wrth drin dŵr yfed sy'n helpu i waredu unrhyw fater gronynnol. |
| Cloramin | sylwedd gaiff ei ffurfio yn sgil yr adwaith rhwng clorin ag amonia, a ddefnyddir fel diheintydd yn y system ddosbarthu am ei fod yn para'n hirach na clorin. |
| Clorid | elfen mewn halen naturiol. Gall ymddangos yn naturiol mewn dŵr neu o ganlyniad i ddefnydd lleol o halen dadrewi neu ymyrraeth halenog. Paramedr dangosydd gyda chanllaw gwerth o 250mg/l. |

| | |
|---|--|
| Clorid Fynyl | gall fod yn bresennol mewn pibellau plastig yn dilyn y broses gynhyrchu pibellau clorid polyfynyl (PVC). Rheolir y lefelau mewn dŵr yfed trwy fanylion cynnyrch. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.5µg/l mewn grym. |
| Clorin gweddilliol | y swm bychan o glorin neu gloraminau sy'n bresennol mewn dŵr yfed i gynnal ei ansawdd wrth iddo basio trwy rhwydwaith y cwmni dŵr o bibau a phlymio domestig. |
| Cloroamineiddiad | y broses o greu gweddillion diheintydd cloramin mewn dŵr sy'n gadael gweithfeydd trin. |
| <i>Clostridium perfringens</i> | bacteria sy'n ffurfio sbôr sy'n bresennol ym mherfedd anifeiliaid gwaed-cynnes. Gall y sborau hyn oroesi'r broses ddiheintio. Os yw'r sborau yma'n bresennol mewn dŵr yfed mae'n arwydd o ddifwyniant hanesyddol ac mae gofyn am archwiliad. Y safon yw 0 ymhob 100ml. |
| Cofrestr cyhoeddus | gwybodaeth am ansawdd dŵr yfed sydd ar gael i'r cyhoedd yn ôl gofynion y rheoliadau. |
| Copr | mewn dŵr yfed fel arfer o ganlyniad i bibellau a ffitiadau copr mewn cartrefi. Yn gyffredinol, nid yw ffynonellau dŵr yn ymosodol tuag at gopr ond gall problemau godi'n achlysurol ar stadau tai newydd. Gall yr achlysuron "dŵr glas" yma gael eu hosgoi trwy ddefnyddio plymwaith da. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 2mg/l yn cael ei weithredu. |
| Cromiwm | ddim yn bresennol mewn dŵr yfed. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 50µg/l yn cael ei weithredu. |
| Cronfa wasanaeth | tŵr dŵr, tanc neu gronfa arall a ddefnyddir i storio dŵr wedi ei drin o fewn y system ddosbarthu. |
| Crynhoad neu werth penodedig (PCV) | y gwerth rhifyddol sy'n cael ei roi i safonau dŵr yfed i ddiffinio uchafswm neu isafswm crynhoad neu werth cyfreithiol paramedr. |
| PR09 | y broses arolygu gyfnodol ar gyfer gosod prisiau dŵr ar gyfer 2010 - 2015 . |
| <i>Cryptosporidium</i> | parasit sy'n achosi gastro-enteritis difrifol a gall oroesi'r broses ddiheintio. Yn y DU mae monitro parhaus yn mynd ymlaen o fewn y gweithfeydd lle credir bod risg sylweddol. Y safon trin ar gyfer y gweithfeydd yma yw <1 öosyst ym mhob 10 litr. |

| | |
|----------------------------------|---|
| Cyfansoddyn | Mmae cyfansoddyn yn cynnwys dwy elfen neu fwy mewn cyfuniad cemegol. |
| Cyfarwyddyd Dŵr Yfed y CE | Cyfarwyddyd Cyngor 98/83/CE Rhagfyr 1998 – gosod safonau dŵr yfed ar gyfer aelodau'r Gymuned Ewropeaidd. |
| Cyflenwad llwyth | dŵr sy'n cael ei gyflenwi mewn llwyth, fel arfer wedi ei drin, o un cwmni dŵr i un arall. |
| Cyflenwadau awdurdodedig | cyflenwad dŵr am ddim, wedi ei warchod gan gytundeb hanesyddol, i berchennog eiddo a sefydlir pan fydd cwmni am osod prif bibell ar hyd y tir a'r perchennog yn cytuno, os caiff ganiatâd, i gymryd cyflenwad dŵr o'r brif bibell. |
| Cyflenwadau cyhoeddus | dŵr a gyflenwir gan gwmni wedi ei drwyddedu ar gyfer y pwrpas hwnnw. |
| Cyflenwadau preifat | dŵr a dynnir o ffynonellau preifat neu a gyflenwir gan gyflenwyr heb drwydded; cyflenwadau dŵr a gaiff eu cyflenwi gan unrhyw un ar wahân i ymgwymerwr dŵr wedi ei benodi'n statudol. |
| Cyfrifiad coloni | technegau ar gyfer adnabod ystod eang o facteria, y mathau a'r niferoedd yn dibynnu ar amodau'r profion. Mae'r cyfrifon yma, os y'u gwneir yn aml, yn medru bod o fudd i'r rheolwyr dŵr ond nid oes arwyddocâd iechyd uniongyrchol iddynt. Y safon yw 'dim newid annormal'. |
| Cymylogrwydd | mesur yn bamedr rheoli ansawdd dŵr pwysig mewn gweithfeydd trin dŵr oherwydd gall gael ei fonitro'n barhaus ar-lein a gosodir larymau i hysbysu ynglŷn â dirywiad ansawdd dŵr crai neu'r angen i drin y dŵr. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 1NTU. Pan gaiff ei ganfod yn nhap y defnyddiwr gall godi o aflonyddu'r gwaddodion oddi fewn i'r brif bibell ddŵr. Yn yr achos hwn mae safon Genedlaethol o 4NTU yn gymwys. |
| Cyswllt gwasanaeth | cyswllt rhwng prif bibell y cwmni dŵr ag eiddo defnyddiwr. |
| Dargludedd | mesur anarwyddocaol o'r sylweddau anorganig sydd wedi toddi o fewn y dŵr. Paramedr dangosydd gyda chanllaw gwerth o 2500µS/cm. |
| Digwyddiad | rhaid i gwmnïau dŵr hysbysu'r Arolygiaeth am achlysuron lle mae ansawdd neu'r digonedd o ddŵr yn cael ei effeithio neu pan fo hyder mewn ansawdd dŵr yfed yn cael ei effeithio. Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio at yr achosion yma fel 'Digwyddiadau'. |

| | |
|---|--|
| Diheintydd gweddilliol | y swm bychan o glorin neu gloraminau sy'n bresennol mewn dŵr yfed er mwyn cynnal ei ansawdd wrth iddo basio trwy rhwydwaith y cwmni dŵr o bibau gwaith plymio cartrefi. |
| Dôs dynodol llawn | mesur o'r dos effeithiol o belydriad y bydd y corff yn ei dderbyn wrth yfed dŵr. Dim ond pan fydd gwerthoedd sgrinio gros alpha neu gros beta (pelydredd) yn uwch na'r arfer y bydd gofyn edrych ar y mesur hwn. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 0.10mSv/y flwyddyn. |
| Dosio ffosffad | trin y dŵr yn y fath fodd nes bod ffilm amddiffynnol yn ymgasglu y tu mewn i bibellau gan leihau presenoldeb plwm mewn dŵr yfed a gyflenwir trwy bibellau plwm. |
| Dŵr crai | dŵr cyn iddo gael ei drin ar gyfer ei yfed. |
| Dŵr daear | dŵr o ddyfrhaenau neu darddiadau tanddaearol eraill. |
| Dŵr wedi ei drin | dŵr wedi ei drin ar gyfer ei ddefnyddio'n ddomestig fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau. |
| Dŵr wyneb | dŵr heb ei drin o afonydd, cronfeydd cronni neu darddiad arall o ddŵr ar yr wyneb. |
| Dyfrhaen | strata tanddaearol yn cynnwys dŵr. |
| Enterococci | gweler <i>Escherichia coli</i> . |
| Epichlorhydrin | gellir dod o hyd i olion mewn cemegion trin dŵr polyamine. Rheolir y lefelau mewn dŵr yfed trwy fanylion cynnyrch. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.1µg/l yn cael ei weithredu. |
| Epidemioleg | proses o astudio dosbarthiad achosion o afiechyd o fewn poblogaeth mewn perthynas â dinoethiad i ffynonellau heintiad posib, gyda'r bwriad o sefydlu union darddiad yr heintiad. |
| <i>Escherichia coli</i> ac Enterococci | Fe'u ceir mewn anifeiliaid gwaed-cynnes. Ni ddylai rhain fod yn bresennol mewn dŵr yfed, fodd bynnag, os canfyddir hwy dylid gweithredu'n gyflym i adnabod a gwaredu unrhyw ffynhonnell o ddifwyniant ysgarthol. Y safon yw 0 ym mhob 100ml. |
| Esthetig | yn gysylltiedig â'r synhwyrâu – blas, arogl a golwg. |
| Geosmin | Deunydd a gynhyrchir gan dyfiant algâu, fel arfer mewn dŵr ar yr wyneb, sy'n achosi blas neu arogl "priddlyd" neu "lwydaidd" nodweddiadol. |

| | |
|--|---|
| Gweithredu adferol | gwaith a wneir i wella sefyllfa. |
| Gweithredu gorfodol | y modd, fel y'i cofnodir yn Neddf Dŵr 1989 a'i atgyfnerthu yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i gwmni dŵr gydymffurfio gyda rhai anghenion rheolyddol. |
| Fflŵorid | <p>yn ymddangos yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr yn arbennig dŵr daear. Ni ellir ei waredu trwy ddefnyddio triniaethau cyffredin ac felly rhaid lleihau lefelau uchel ohono trwy ei gymysgu gyda dŵr o ffynhonnell arall sydd â lefelau fflŵorid isel.</p> <p>Mae rhai awdurdodau lleol yn mynnu bod cwmnïau dŵr yn ychwanegu fflŵorid mewn modd artiffisial at ddŵr er mwyn cynorthwyo i rwystro dannedd rhag pydru. Mae'r safon dŵr yfed yn sicrhau bod y lefelau'n saff. Polisi yr Adran Iechyd yw fflŵorideiddio. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1.5mg/l yn cael ei weithredu.</p> |
| Ffynhonnau | dŵr daear sy'n dod i'r wyneb lle daw haenen athraidd a haenen an-athraidd i gwrdd â'i gilydd. |
| Haearn | <p>yn bresennol yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr. Fe'i gwaredir trwy'r broses trin dŵr.</p> <p>Caiff rhai compowndiau haearn eu defnyddio fel cemegau trin dŵr. Fodd bynnag, ffynhonnell fwyaf cyffredin haearn mewn dŵr yfed yw rhwd o fewn prif bibellau haearn. 200µg/l yw'r safon Cenedlaethol.</p> |
| Hidlad | gwahanu gronynnau mewn daliant o hylif. |
| Hydrocarbonau aromatig polysyclig | enw ar grŵp o sylweddau sy'n bresennol mewn cynnyrch ag iddynt sail petroliwm er enghraifft coltar.(gweler Benzo(a)pyrene a restrir uchod am fwy o wybodaeth. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd 0.1µg/l gyfer cyfanswm yr holl sylweddau mewn grym. |
| Iachus/Iachusrwydd | cysyniad cyfreithiol o ansawdd dŵr a ddiffinnir trwy gyfeirio at safonau ac unrhyw anghenion eraill a nodir yn y Rheoliadau. |
| Ïon Hydrogen (pH) | <p>yn rhoi syniad o lefel asidedd y dŵr. Mae pH o 7 yn niwtral; mae gwerthoedd is na 7 yn dynodi asidedd a gwerthoedd uwch yn dynodi alcali.</p> <p>Gall dŵr agiddo pH isel achosi rhwd o fewn pibellau. Gellir datrys hyn drwy ychwanegu alcali yn ystod y broses trin dŵr. Mae'r safon Cenedlaethol rhwng 6.5 a 10.0.</p> |

| | |
|---------------------------|---|
| Lliw | yn ymddangos yn naturiol mewn dŵr o dir uchel. Defnyddir triniaeth gyffredin i'w waredu. Y safon genedlaethol yw 20 mg/l ar y raddfa Pt/Co. |
| Llythyr Gwybodaeth | canllaw ffurfiol ar gyfer cwmnïau dŵr oddi wrth yr Arolygiaeth a gaiff ei gyhoeddi ar wefan yr arolygiaeth ar www.dwi.gov.uk |
| m³/d | metr giwbig y dydd. |
| Manganis | yn bresennol yn naturiol mewn sawl ffynhonnell ac fel arfer caiff ei ddiddymu yn ystod triniaeth. 50µg/l yw'r safon Genedlaethol. |
| Meicrobiolegol | cysylltiedig â'r astudiaeth o feicrobau. |
| Mercwri | ddim yn bresennol mewn ffynonellau dŵr yfed. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 1µg/l yn cael ei weithredu. |
| mg/l | miligram y litr (un rhan o fil o gram y litr). |
| MI/d | megalitr y dydd (un MI/d yn hafal i 1,000 m ³ /d, neu 220,000 galwyn/d). |
| Nicel | yn ymddangos yn naturiol mewn rhywfaint o ddŵr daear a bydd angen triniaeth arbennig i'w waredu. Ffynhonnell arall o nicel yw'r haenau allanol ar dapiau modern a ffitiadau plymwaith arall. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 20µg/l yn cael ei weithredu. |
| Nitrad | yn bodoli'n naturiol ym mhob un o'r ffynonellau dŵr er bod crynadau uwch i'w cael lle defnyddir gwrteithwyr ar y tir. Gall gael ei waredu trwy driniaeth cyfnewid ïon neu trwy ei gymysgu gyda ffynonellau eraill sydd â lefelau nitrad is. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 50mg/l yn cael ei weithredu. |
| Nitraid | caiff ei gynhyrchu weithiau fel is-gynnyrch pan ddefnyddir cloramin fel diheintydd gweddilliol yn y cyflenwad dŵr cyhoeddus. Cloramin yw'r diheintydd gweddilliol a ddewisir ar gyfer systemau dosbarthu mawr am ei fod yn fwy cadarn a hirbarhaol. Trwy gymryd gofal wrth weithredu'r broses ddiheintio gellir sicrhau bod y lefelau nitraid yn aros yn is na'r safon. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.5mg/l yn cael ei weithredu. |
| Ofwat | rheolydd economaidd y diwydiant dŵr. |
| Oocyst | ffurf wrthsafol <i>Cryptosporidium</i> yn yr amgylchedd, sy'n medru achosi heintiad. |

| | |
|---|---|
| Organeb Dynodol | organedd sy'n dangos presenoldeb heintiad ac felly presenoldeb posib pathogenau. |
| Organoleptic | nodweddion sylwedd yn ôl ein synhwyrau er enghraifft blas, arogl neu liw. |
| Paramedr Dynodol | rhywbeth sy'n cael ei fesur er mwyn gwirio bod mesurau rheoli, megis trin dŵr, yn gweithio'n effeithiol. |
| Paramedrau | y sylweddau, yr organeddau a'r nodweddion a restrir yn Atodlen 2 a Rheoliad 3 o'r Rheoliadau. Gellir gweld diffiniadau o'r paramedrau yn nes ymlaen yn yr atodiad hwn. |
| Parasitiaid protosoaid | organedd un cell sydd ond yn gallu goroesi trwy fyw ar organedd arall. |
| Parth cyflenwi dŵr | ardal gyflenwi a ddiffiniwyd ar gyfer sefydlu samplo, cydymffurfiaeth gyda safonau a gwybodaeth i'w wneud yn hysbys i'r cyhoedd. |
| Pathogen | organedd sy'n medru heintio bodau dynol ac achosi afiechyd. |
| PCV | gweler 'Crynhoad neu werth penodedig'. |
| Pibell farw | Mae pibell farw'n cyfeirio at ddarn o beipen sydd wedi ei chau ar un pen ond sydd wedi ei chysylltu â'r cyflenwad y pen arall a gall achosi i ferddwr gasglu yn y pibelli. |
| Pibell gyfathrebu | y cysylltiad rhwng y brif bibell ddŵr â ffin cartref y defnyddiwr. |
| Pibell gyflenwi | pibell sy'n cysylltu ffin eiddo defnyddiwr â'r stop tap tu mewn i'r eiddo. |
| Pibell wasanaeth | y bibell wasanaeth yw'r bibell sy'n cysylltu eiddo'r defnyddiwr i brif bibell y cwmni dŵr. Mae dwy ran iddo – y bibell gyfathrebu sef y cyswllt rhwng y brif bibell â ffin eiddo'r defnyddiwr (fel arfer y stop tap tu allan) a'r bibell gyflenwi sy'n rhedeg o ffin yr eiddo i stop tap y defnyddiwr y tu mewn i'r tŷ. |
| Plaladdwyr | unrhyw ffyngladdwr, chwynladdwr, pryfleiddiad neu gynnyrch perthnasol (ac eithrio moddion) a ddefnyddir i reoli pla neu afiechyd. |
| Plaladdwyr – compowndiau organoclorin (aldrin, dieldrin, heptachlor, heptachlor epoxide) | ddim yn cael eu defnyddio bellach yn y DU gan eu bod yn barhaol yn yr amgylchedd. Nid ydynt yn bresennol mewn dŵr yfed. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.03µg/l ar gyfer pob compownd yn cael ei weithredu. |

| | |
|--|--|
| Plaladdwyr – ar wahân i'r compowndiau organclorin | grŵp mawr ac amrywiol o gompowndiau organig sy'n cael eu defnyddio fel chwynladdwyr, pryfleiddiaid a ffyngladdwyr. Mae nifer o ffynonellau dŵr yn cynnwys olion o un neu fwy o'r plaladdwyr o ganlyniad i ddefnydd amaethyddol ac anamaethyddol ar gnydau ac er mwyn rheoli chwyn wrth ochr y priffyrdd ac mewn gerddi. Lle bo angen, bydd cwmnïau dŵr yn trin y dŵr (carbon egnioledig ac osôn) er mwyn gwaredu'r plaladdwyr o'r dŵr. Rhaid i gwmnïau dŵr brofi am fodolaeth y plaladdwyr hynny sy'n cael eu defnyddio o fewn eu hardal gyflenwi. O ganlyniad mae monitro plaladdwyr yn amrywio yn ôl risg. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 0.1µg/l ar gyfer pob sylwedd unigol a 0.5µg/l ar gyfer cyfanswm yr holl blaladdwyr mewn grym. |
| Plwm | anaml iawn yr ymddengys hwn yn naturiol mewn dŵr crai. Os ymddengys, fel arfer bydd o ganlyniad i blymwaith mewn hen dai. Os oes tuedd i'r cyflenwad dŵr doddi'r plwm, bydd y cwmnïau dŵr yn trin y dŵr er mwyn amddiffyn y defnyddwyr. Yr unig ffordd o ddatrys y broblem yn barhaol yw trwy waredu pibellau a ffitiadau plwm o'r cartref. Bydd safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l yn dod i rym o 2013 ymlaen. |
| Proses Osôn (osoneiddio) | defnyddio nwy osôn wrth drin dŵr. |
| Pwynt cyflenwi | pwynt arall ar wahân i dap defnyddiwr lle awdurdodir cymryd samplau ar gyfer cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau. |
| Rhaglenni Gwelliant | rhaglenni gwella cwmnïau dŵr. Mae'r rhain yn gyfreithiol rwymol a bydd pob rhaglen yn adfer achos o dorri safon dŵr yfed o fewn cyfnod penodedig o amser. |
| Rheolaeth Ansawdd Dadansoddol (AQC) | y dull a ddefnyddir i sicrhau bod dulliau dadansoddi mewn labordy'n perfformio'n gywir. |
| Rheoliadau | Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2000 yn Lloegr; 2010 (Cymru). |
| Safonau dŵr yfed | y crynadau neu'r gwerthoedd penodedig a nodir yn y Rheoliadau. |
| Seianid | Ddim yn bresennol mewn dŵr yfed. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 50µg/l yn cael ei weithredu. |

| | |
|--|---|
| Seleniwm | elfen hanfodol ac yn rhan bwysig o'n deiet. Mae'r lefelau a ganfyddir yn ein dŵr yfed fel rheol dipyn yn is na'r safon. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l mewn grym. |
| Sodiwm | rhan o halen cyffredin. Yn bresennol mewn dŵr môr a dŵr daear hallt. Mae ambell gemegyn trin dŵr yn cynnwys sodiwm. Mae crynoadau mewn dŵr yfed yn isel iawn ond bydd rhai meddalwyr dŵr gaiff eu defnyddio mewn cartrefi a ffatrioedd yn ychwanegu'n sylweddol at y lefel mewn dŵr yfed. Mae safon genedlaethol o 200mg/l mewn grym. |
| Sylffad | yn ymddangos yn naturiol ym mhob dŵr ac ni ellir ei waredu. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 250mg/l. |
| Systemau dosbarthu | rhwydwaith y cwmni o brif bibellau, pibellau, gorsafoedd pwmpio a chronfeydd gwasanaeth y mae'r dŵr wedi ei drin yn teithio drwyddo er mwyn cyrraedd y defnyddwyr. |
| Tanc cyswllt | tanc sy'n ffurfio rhan o'r broses ddiheintio a gaiff ei leoli ar safle'r gweithfeydd trin fel arfer. Caiff cemegyn diheintio (clorin fe rheol) ei ychwanegu at y dŵr wrth iddo lifo i'r tanc. Mae'r amser a gymer hi i'r dŵr lifo drwy'r tanc yn ddigonol i sicrhau bod y cemegyn yn medru "cysylltu" ac o ganlyniad yn lladd neu'n dadfywiogi unrhyw feirws neu organedd pathogenig all fod yn bresennol yn y dŵr. |
| Tetrachloroethane a Trichloroethene | toddyddion all gael eu canfod mewn dŵr daear wrth ymyl safleoedd diwydiannol. Lle bo'n angenrheidiol defnyddir triniaeth arbennig i'w gwaredu. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 10µg/l ar gyfer cyfanswm y ddau sylwedd mewn grym. |
| Tetrachloromethane | toddydd all ymddangos mewn dŵr daear yn agos i safleoedd diwydiannol. Lle bo'n angenrheidiol gellir trin y dŵr er mwyn ei waredu. Mae safon genedlaethol o 3µg/l mewn grym. |
| Tocsicoleg | astudiaeth o effeithiau iechyd sylweddau. |
| Toddiant plwm | y tueddiad i blwm i doddi mewn dŵr. |
| Tramgwyddo | torri gofyniad rheoleiddiol. |
| Trihalomethanes | yn cael eu ffurfio yn y broses o ddiheintio dŵr yn sgil yr adwaith rhwng clorin a sylweddau organig naturiol. Gellir eu lleihau trwy ddefnyddio arferion da. Mae safon wedi ei seilio ar iechyd Ewropeaidd o 100µg/l mewn grym. |

| | |
|-------------------------------|--|
| Tritium | isotop ymbelydrol o hydrogen. Mae'r lefelau ohono yn yr amgylchedd yn cael eu rheoli'n llym a ceir rhaglen cenedlaethol sy'n gofalu am fonitro dŵr ar yr wyneb. Dangosydd paramedr gyda chanllaw gwerth o 100Bq/l. |
| WHO | World Health Organisation. |
| Ymadawiad awdurdodedig | awdurdod i gwmni dŵr gyflenwi dŵr dros dro sy'n uwch na'r safon dŵr yfed a ganiateir gan yr awdurdodau dim ond pan nad oes yna risg i iechyd dynol. |
| Ymosodol | term a ddefnyddir i ddynodi bod gan y dŵr y tueddiad i doddi copr (a metelau eraill) o arwyneb y tu fewn i biben neu ffitiadau dŵr megis tap. |
| Ysgrifennydd Gwladol | Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. |

Atodiad 3

Digwyddiadau ansawdd dŵr arwyddocaol

| Dyddiad a hyd | Ardal | Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd | Natur ac achos y digwyddiad | Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth |
|-----------------------------------|--|--|--|--|
| 06 Ion 2009 Am 5 diwrnod (DWR) | Maerdy, Glynrhedynog a rhannau o Gwm Rhondda | 22,400 | Afliwiad brown o ganlyniad i ddirywiad dŵr crai. | <p>Dynododd yr Arolygiaeth bod yn digwyddiad yma'n un difrifol.</p> <p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffodd y gwaith trin. • Samplo'r ardal a effeithiwyd. • Darparu cyflenwad amgen mewn tancer/ tancer dŵr • Darparu dŵr potel ar gais. • Atgyweirio'r prif gyflenwad • Ailbarthu'r ardal (dod â dŵr i mewn o ffynhonnell arall). • Roedd y camau eraill a gymerwyd yn cynnwys fflysio prif gyflenwad y dŵr crai i gyflenwad gwastraff mewn cytundeb ag Asiantaeth yr Amgylchedd. <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argymhell bod y Cwmni'r adolygu gosodiadau'r larwm a blaenoriaethau ar gyfer paramedrau'r dŵr crai yn y gwaith i sicrhau'r rhybudd cynharaf o broblemau ansawdd dŵr crai a phresenoldeb ar y safle os yn briodol. • Argymhell bod y Cwmni'n adolygu ei strategaeth cynnal a chadw ar gyfer prif gyflenwad y dŵr crai er mwyn sicrhau bod rhaglen lanhau wedi ei seilio ar risg yn ei lle ym mhob gwaith a ddynodwyd fel rhai mewn risg o broblemau tebyg. |

| Dyddiad a hyd | Ardal | Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd | Natur ac achos y digwyddiad | Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth |
|-------------------------------------|---|--|---|--|
| 01 Chwef 2009 Am 1 diwrnod (DWR) | Gwaith Trin Dŵr Pendine, sy'n cyflenwi rhannau o Dde Orllewin Sir Gaerfyrddin | 7,781 | <i>Cryptosporidiwm</i> a phroblemau â cheulo. | <p>Dynododd yr Arolygiaeth bod yn digwyddiad yma'n un difrifol</p> <p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trwsio cyfarpar diffygiol. <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo ymateb cyflym y Gweithredwyr i gychwyn dosio ceulydd. Heb amheuaeth lleihaodd y gweithredu hyn hŷd cyfnod y colli triniaeth. • Yr ADY i argymhell bod larymau dosio ceulydd yn cael eu gosod, ond fe nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i osod mesuryddion llif a larymau telemetreg. • Argymhell bod y Cwmni'n adolygu sut mae'n sicrhau bod diheintio'n ddigonol a'i fod yn ymgymryd â monitro digonol. |

| Dyddiad a hyd | Ardal | Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd | Natur ac achos y digwyddiad | Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth |
|-----------------------------------|-------------------------------|--|---|---|
| 01 Ebr 2009 Am 20 awr (DWR) | Pendarnddu ger Merthyr Tydfil | 9,500 | Afliwiad brown o ganlyniad i waith a gynlluniwyd. | <p>Dynododd yr Arolygiaeth bod yn digwyddiad yma'n un difrifol.</p> <p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trwsio cyfarpar diffygiol. • Ailbarthu'r ardal (dod â dŵr i mewn o ffynhonnell arall). • Samplo'r ardal a effeithiwyd. • Darparu cyflenwad amgen mewn tancer/ tancer dŵ. • Darparu dŵr potel ar gais. • Adolygu'r gweithdrefnau. <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aseiad risg annigonol. • Argymell yn y dyfodol bod pob diffoddiad mewn gwaith yn cael aseiad risg cywir er mwyn cwmpasu pob senario a digwyddiad posibl. • Argymell yn y cyfnod interim cyn ynysu a glanhau'r gronfa hon bod gweithdrefnau'n cael eu rhoi yn eu lle i atal aflonyddu'r gwaddodion yn y gronfa hon. • Argymell bod y Cwmni'n cymhwyso'r dysgu o bob safle perthnasol, gyda chyfeiriad at reoli lefelau cronfeydd yn ystod digwyddiadau. |

| Dyddiad a hyd | Ardal | Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd | Natur ac achos y digwyddiad | Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth |
|--|---|--|---|--|
| 10 Ebr 2009 Am 2 ddiwrnod (DWR) | Pontarddulais a Gorseinon, ger Abertawe | 39,530 | Afliwiad brown o ganlyniad i waith a gynlluniwyd. | <p>Dynododd yr Arolygiaeth bod yn digwyddiad yma'n un difrifol.</p> <p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu dŵr potel ar gais. • Adolygu'r gweithdrefnau. • Samplo'r ardal a effeithiwyd. <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aseiad risg annigonol. • Cysylltwyd â phob defnyddiwr a wnaeth adroddiad am ddŵr afliwiedig unwaith eto ar y 14eg Ebrill i gadarnhau bod yr holl aflwiad wedi clirio o'r system a chymeradwyodd yr ADY y Cwmni am y gweithredu yma. • Argymhellwyd bod y Cwmni'n cynnal adolygiad arall o'r gweithdrefnau i ystyried a oes angen unrhyw newidiadau ychwanegol i ymgorffori darganfyddiadau'r ymarferiad modelu. • Argymhellwyd bod y Cwmni'n cynnal adolygiad i ddeall pa opsiynau eraill sydd ar gael am well rheolaeth o lifoedd a chyflymderau allan o Waith Trin Dŵr Bryngwyn a'r system ddosbarthu hon sydd â'r potensial i fod yn sensitif. |

| Dyddiad a hyd | Ardal | Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd | Natur ac achos y digwyddiad | Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth |
|-----------------------------------|------------------------------|--|--|--|
| 22 Ebr 2009 Am 8 awr(DWR) | Aberdâr | 25,851 | Afliwiad brown o ganlyniad i fyrst yn y prif gyflenwad. | <p>Dynododd yr Arolygiaeth bod yn digwyddiad yma'n un boddhaol.</p> <p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Samplo'r ardal a effeithiwyd. • Amnewid cyfarpar diffygiol. • Darparu cyflenwad amgen mewn tancer/ tancer dŵr. <p>Sylwadau a chanfyddiadau'r ADY:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwiliadau annigonol i'r achos gwreiddiol. • Cyflenwi dŵr afiach a trwy hynny dorri rheoliadau. • Argymell bod yn Cwmni'n ystyried mesurau eraill i fonitro'r math yma o sefyllfa a gwneud gwell defnydd o delemetreg ar-lein i fonitro'r system dosbarthu. |
| 28 Ebr 2009 Am 1 diwrnod (DWR) | Gorllewin Caer, Sir Ddinbych | 175,000 | Cyhoeddi rhybudd i ferwi dŵr a halogiad microbiolegol yn y gwaith. | <p>Dynododd yr Arolygiaeth bod yn digwyddiad yma'n un difrifol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwiliad yn mynd rhagddo <p>Camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi rhybudd i ferwi dŵr. • Samplo'r ardal a effeithiwyd. • Gwneud newidiadau i broses ddiheintio'r gwaith trin. • Lleihau'r llif trwy'r gwaith. • Archwilio a adolygu'r dalgylch, perfformiad y gwaith trin a data ansawdd dŵr. |

| Dyddiad a hyd | Ardal | Amcangyfrif o'r boblogaeth a effeithiwyd | Natur ac achos y digwyddiad | Prif gamau a darganfyddiadau archwiliad yr Arolygiaeth |
|-----------------------------------|--|--|--|--|
